# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor: Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod: 31 Ionawr 2012** |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol: Y Prif Weithredwr** |
| **Comisiynwr Perthnasol: Mick Giannasi** |

## Teitl yr Adroddiad – Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft y Cyngor 2012 – 2016

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Darparu cyfle i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyflwyno sylwadau ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft i Fwrdd y Comisiynwyr ar 20 Chwefror 2012.

### 2.0 Materion ar gyfer Sgriwtini

Gofynnir am farn yr aelodau ar y Cynllun drafft, yn arbennig yr amcanion cydraddoldeb a'r meysydd gweithredu sydd wedi'u hadnabod.

### 3.0 Cefndir

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb Act 2010 yn rhoi Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig, wrth gynnal eu gwaith (a phan fo pobl eraill yn cynnal gwaith cyhoeddus) I ystyried yr angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Ym mis Ebrill 2010, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei bwerau i gyflwyno Dyletswyddau Penodol a nodir y rhain yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Penodol) (Cymru) 2011. Cyflwynwyd y Rheoliadau hyn i helpu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i weithredu eu Dyletswydd Cyffredinol yn well. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys yr angen i ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynllun cydraddoldeb strategol erbyn 2 Ebrill 2012.

Mae swyddogion cydraddoldeb ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol yn y Gogledd, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac yn Heddlu Gogledd Cymru wedi rhannu arferion da ers blynyddoedd lawer. Ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, rydym wedi bod yn cydweithio i symud yr agenda gydraddoldeb yn ei blaen ac i fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yn y Gogledd.

Yn 2011, cynhaliodd rhwydwaith Gogledd Cymru gyd-weithgareddau i ddatblygu cyfres o amcanion ar y cyd a gytunwyd arnynt gan bob partner. Mae cyfres o feysydd gweithredu i gydfynd â phob amcan. Mae gwahanol bartneriaid wedi cytuno i gyfrannu at wahanol feysydd gweithredu. Rhoddir manylion am yr amcanion ar y cyd, a sut sut wnaethom ddewis cyfrannu atynt yn y Cynllun drafft sydd ynghlwm.

Bwriedir cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft am gymeradwyaeth Bwrdd y Comisiynwyr ar 20 Chwefror 2012 ac i'r Cyngor Sir i'w fabwysiadu ar 6 Mawrth 2012.

**Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth, Swyddfa'r Prif Weithredwr**

*Dyddiad – 24 Ionawr 2012.*

---

**Atodiadau**

Cynllun Strategol Cydraddoldeb drafft 2012 - 2016

**Penderfyniadau perthnasol a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol -** Dim penderfyniadau perthnasol blaenorol

**Papurau Cefndir**

Swyddog Cyswllt: Carol Wyn Owen, 01248 752561

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol
# Drafft
# 2012 - 2016

DRAFFT

**24.01.12**

## Rhagair

Fel awdurdod, rydym yn ymrwymedig i gydraddoldeb, wrth ddarparu gwasanaethau ac fel cyflogwr mawr, ac i ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon ym mhob un o'n polisïau, gweithdrefnau ac arferion.

Yn y ddogfen hon, ceir y Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf i gael ei gynhyrchu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae'n cymryd lle'r cynlluniau cydraddoldeb blaenorol ac yn anelu at hyrwyddo a datblygu ymhellach yr arferion da sydd eisoes wedi'u sefydlu.

Mae'r cynllun hwn yn ddogfen sy'n esblygu a man cychwyn yn unig yw'r gweithrediadau sydd ynddo i ddatblygu rhaglen a fydd, o fewn gallu a dylanwad y Cyngor Sir, yn:

- diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn elfennau allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn. Mae gweithredu'r Cynllun hwn wedi ei gynnwys fel gweithred allweddol o fewn ein Cynllun Busnes Corfforaethol drafft 2012-15 o dan y canlyniad strategol 'bod pobl yn Ynys Môn yn cyrraedd eu potensial llawn'.

Yn ystod 2011/12, rydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill ledled Gogledd Cymru i nodi amcanion allweddol sy'n gyffredin i ni gyd. Mae cyfres o feysydd gweithredu i gyd-fynd â phob amcan. Ceir manylion am yr holl amcanion a'r meysydd gweithredu yn y Cynllun hwn.

Byddem yn falch o dderbyn sylwadau, cyfraniadau a chyfranogiad cadarnhaol o unrhyw gyfeiriad yn, neu y tu allan, i ardal y Cyngor Sir i'n helpu ni i gyrraedd ein nod yn yr agwedd bwysig hon o'n gwaith.

**Y Cynghorydd Kenneth P Hughes**
**Pencampwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**
**Cyngor Sir Ynys Môn**

DRAFT

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagarweiniad | **4** |
| Ein Hynys | **5** |
| Ein Cyngor | **5** |
| Hyrwyddo Cydraddoldeb | **6** |
| Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb | **8** |
| Gwybodaeth am Gyflogaeth | **9** |
| Asesu Effaith | **10** |
| Cydweithio | **11** |
| Ymgysylltu | **11** |
| Amcanion Cydraddoldeb | **12** |
| Monitro Cynnydd | **33** |
| Sut i gysylltu â ni | **33** |

Atodiadau:
Atodiad 1 - Dogfen Amcanion Cydraddoldeb ar y cyd
Atodiad 2 – Dogfen Ymchwil a Chefndir
Atodiad 3 – Cynllun Gweithredu


Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill


Cysylltwch â'r Uned Bolisi, Swyddfa'r Prif Weithredwr
E-bost: 💻 rwhcs@ynysmon.gov.uk
Ffôn: ☎ 01248 752561 / 752520


DRAFT

## Rhagarweiniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymwneud â sicrhau bod pawb yn cael chwarae teg wrth ganolbwyntio ar wneud i ffwrdd â gwahaniaethu, gwella cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol unigolion a chymunedau. Mae’r Ddeddf yn disodli cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol gydag un Ddeddf. Mae’n symleiddio ac yn egluro rôl Awdurdodau Lleol fel cyrff sy’n arwain ar wella cydraddoldeb i’w dinasyddion a’u cymunedau.

Mae’r Ddeddf yn nodi rhestr ragnodedig newydd o nodweddion a warchodir, sy’n disodli’r ‘meysydd cydraddoldeb’ blaenorol. Gwarchodir y grwpiau hyn drwy ddyletswyddau cyffredinol a phenodol y Ddeddf. Mae’r ddyletswydd cyffredinol newydd yn gwarchod y nodweddion canlynol:

- Oed
- Newid rhyw
- Rhyw
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys dim cred
- Priodas a phartneriaeth sifil (er dim ond lle mae angen dileu gwahaniaethu)

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru i’w helpu i gyflawni’r ddyletswydd cyffredinol. Fel rhan o’r dyletswyddau hyn, rhaid i gyrff cyhoeddus ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Rydym wedi ymrwymo i brif ffrydio cydraddoldeb o fewn gwaith yr awdurdod ar bob lefel drwy integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb o fewn y gwelliannau presennol o fewn ein strategaethau a’n cynlluniau allweddol. Gan hynny, ni ddylid gweld y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn fel dogfen ‘ar ei phen ei hun’ ond fel cynllun sy’n cyd-fynd ac yn cyfeirio at rai o’n cynlluniau allweddol eraill.

DRAFT

## Ein Hynys

Ynys yw Môn sy'n ymestyn dros fwy na 700 cilomedr sgwâr, ac sy'n bennaf yn dirlun gwledig. Mae ei 200 cilomedr o arfordir yn cynnwys amrywiaeth eang o draethau tywod a childraethau creigiog sy'n denu llawer iawn o ymwelwyr dros fisoedd yr haf. Mae'r A55 yn ffurfio un o ddwy groesfan sy'n cysylltu ein hynys â thir mawr Cymru, ac fel bod teithwyr a nwyddau'n gallu teithio i ac o borthladd Caergybi.

Mae gan yr ynys pum prif dref, a'r fwyaf o bell yw Caergybi, gyda phoblogaeth o tua 13,500. Mae gan awdurdod Ynys Môn lai o boblogaeth na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, ond mae ei drefi a'i bentrefi i gyd o fewn taith hanner awr i swyddfa weinyddol y Cyngor yn Llangefni.

Mae gwybodaeth am boblogaeth Ynys Môn ar gael ar dudalen 8.

## Ein Cyngor

**Strwythur y Cyngor**
I'w gynnwys.

**Strategaeth Gymunedol**

Y Strategaeth Gymunedol yw prif ddogfen strategol y Cyngor sy'n hyrwyddo gweledigaeth hirdymor ar gyfer gwella lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yr ynys dros y cyfnod 2012-2025. Dros y misoedd diwethaf, mae cynrychiolwyr o'r prif wasanaethau lleol wedi bod yn cyfarfod i gyfrannu at lunio blaenoriaethau'r dyfodol mewn ymateb i'r sialensiau fydd yn wynebu'r Ynys yn y dyfodol.

Rhwng misoedd Hydref - Rhagfyr 2011, cynhaliwyd ymarfer i ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar weledigaeth ac amcanion strategol y Strategaeth. Cynhaliwyd sioe deithiol hefyd rhwng 10-18 Hydref 2011 mewn pum gwahanol le ar draws yr ynys er mwyn rhoi cyfle i gael trafodaeth fwy ansoddol ar bethau.

Fel ymarfer da, mae ystyriaethau o ran cydraddoldeb wedi'u prif ffrydio o fewn proses y Strategaeth Gymunedol o'r cychwyn.

**Cynllun Busnes Corfforaethol**

Mae'r Cynllun Busnes Corfforaethol yn nodi rhaglen waith lefel uchel y Cyngor ac yn manylu ar ein hamcanion gwella. Mae'r amcanion hyn yn adeiladu ar flaenoriaethau a osodwyd yn flaenorol a'u ffocws yw parhau i ddarparu gwasanaethau teg o safon uchel i bobl yr Ynys.

DRAFT

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn canolbwyntio ar y canlyniadau iawn yn y Cynllun Busnes Corfforaethol newydd am y cyfnod 2012-2015, cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu fel rhan o'r sioeau teithiol ym mis Hydref.

**Sialensiau i'r Dyfodol**

Mae nifer o sialensiau'n wynebu'r Ynys yn y blynyddoedd i ddod, sef:

- Mae gan yr ardal y Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) isaf yn y DU, sef 55%, a lefelau uchel o segurdod

- Ymdrin ag effaith cau Alwminiwm Môn a Kaiser Aluminium yn 2009 ar yr economi a marchnad gyflogaeth yr ynys (er y bydd y rhaglen Ynys Ynni, gobeithio, yn adfywio'r sefyllfa)

- Rheoli'r cyflyrau iechyd hirdymor fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

- Wynebu'r angen i ddarparu gwasanaethau teg a chyfartal gwell i'r cyhoedd o fewn cyfyngiadau ariannol sylweddol

## Hyrwyddo cydraddoldeb

Fel awdurdod, rydym yn ymrwymedig i gydraddoldeb, wrth ddarparu gwasanaethau ac fel cyflogwr mawr, ac i ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon ym mhob un o'n polisïau, gweithdrefnau ac arferion.

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod glynu wrth ei Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol o ran cyflogaeth, yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o unigolion, a hynny er budd y sefydliad a'r gweithwyr eu hunain.  Rydym hefyd yn cydnabod y manteision mawr o gael gweithlu amrywiol gyda gwahanol gefndiroedd - gweithlu a gyflogir ar sail gallu yn unig.  Fel enghraifft o hyn, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i fod yn Ddefnyddiwr Symbol Anabledd ac felly'n gweithio'n barhaus i gynnal y pum ymrwymiad, sy'n cynnwys cyfweld pob ymgeisydd sy'n anabl ac yn cwrdd â'r lleiafswm o'r gofynion ar gyfer swydd wag ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gweithwyr sy'n dod yn anabl yn gallu parhau mewn cyflogaeth.

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi rhagor o enghreifftiau o'r hyn a wnaethom eisoes i hyrwyddo cydraddoldeb:

DRAFT

Mae aelod o Bwyllgor Gwaith Cysgodol y Cyngor – y Cynghorydd Kenneth P Hughes – wedi ei adnabod fel Pencampwr Cydraddoldeb y Cyngor ac fe sefydlwyd **Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol** i hyrwyddo, integreiddio a sicrhau cynnydd o ran materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyson ar draws yr holl gyfadrannau a gwasanaethau.

Mae'r Cyngor wedi datblygu **Siarter Urddas mewn Gofal** mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'r Siarter yn rhan o broses barhaus o roi gwybod i bobl hyn am eu hawliau a'u breintiau er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys am eu gofal.

Mae ein prosiect e-ffurflenni'n defnyddio technoleg y rhyngrwyd i symleiddio'r broses o lenwi ffurflenni cais i breswylwyr sydd am **wneud defnydd o amrywiol wasanaethau lles**. Gall cwsmeriaid lenwi'r ffurflen ar-lein, medrant gael cymorth yn swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni neu dros y ffôn. Gellir hefyd trefnu ymweliad cartref i rai na fedrant ddod i'n swyddfeydd. Drwy'r prosiect hwn, gall cwsmeriaid gael mynediad at amryw o wahanol wasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol a thrwy un pwynt cyswllt.

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ceisio sicrhau **mynediad teg at gludiant** i bawb drwy ddarparu cludiant cymunedol a gynorthwyir. Er enghraifft:

- Cludiant Cymunedol Môn – sy'n darparu cludiant i bobl anabl ar Ynys Môn
- Y Groes Goch Prydeinig - sy'n darparu cludiant a gwasanaeth hebrwng i bobl na fedrant ddefnyddio'r cludiant cyhoeddus arferol
- Medrwn Môn – sy'n rhedeg Car Linc Môn, cynllun cludiant cymdeithasol gwirfoddol ar gyfer siwrneiau hanfodol
- Cynlluniau Tro Da – cynlluniau cludiant cymunedol lleol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr sy'n defnyddio eu ceir eu hunain i gludo pobl nad oes ganddynt unrhyw ddull arall o deithio, ar siwrneiau byrion a chanolig

Ar gyfer y cynlluniau uchod, mae angen i'r defnyddiwr dalu ffi fach tuag at gost y gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod wedi cytuno i gais gan breswyliwr lleol ac un o gyd-sylfaenwyr mudiad cefnogi trawsrywedd i godi baner trawsrywedd yn swyddfeydd y cyngor ar 20 Tachwedd i nodi **Diwrnod Cofio Trawsrywedd.** Mae'r dyddiad hwn yn cael ei gydnabod ar draws y byd i gofio rhai a gollwyd oherwydd rhagfarn ar sail casineb.

DRAFT

Yn ein hymdrech barhaus i godi ymwybyddiaeth o **gam-drin domestig**, cafwyd cyfres o weithgareddau ar Ddiwrnod y Rhuban Gwyn (25 Tachwedd), gan gynnwys dosbarthu taflen i holl staff y Cyngor gyda'u cyflog yn ailadrodd y neges na fydd trais yn erbyn merched, nac yn wir yn erbyn unrhyw un, yn cael ei oddef. Rhwng 21 a'r 25 Tachwedd 2011, cynhaliodd Fforwm Cam-drin Domestig Ynys Môn, ynghyd â phartneriaid allweddol eraill, gyd-stondinau gwybodaeth ym mhrif fynedfa Swyddfeydd y Cyngor, yn 'siop un stop' Cam-drin Domestig Gorwel yn Llangefni ac mewn mannau eraill, gyda thaflenni a mwy o wybodaeth am gam-drin domestig i'r cyhoedd.

Mae gan Ynys Môn dair **Canolfan Heneiddio'n Dda**, sy'n cynnig ystod o wasanaethau a gweithgareddau i bobl hŷn, gan gynnwys Tai Chi, ioga, coginio, bowlio dan do a hyfforddiant cyfrifiaduron. Mae'r prosiect hwn wedi'i ganmol gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel esiampl ragorol o wasanaeth sy'n ceisio cynnig atebion i faterion megis atal iechyd, cynhwysiant cymdeithasol a mynediad at wybodaeth a chyngor.

## Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb o fewn ystod eang o strategaethau a chynlluniau gwasanaeth a chorfforaethol. Cyhoeddir dogfennau ar ein gwefan, mewn papurau i bwyllgor ac mae'r cynlluniau allweddol ar gael i'w darllen yn ein llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae tudalen benodol ar Gydraddoldeb ar ein gwefan a byddwn yn ei gwella'n barhaus wrth inni ddatblygu'r blaenoriaethau yr ydym wedi'u hadnabod .

Rhoddir gwybodaeth allweddol am boblogaeth Ynys Môn isod.

Ar sail amcangyfrifon am fis Mehefin 2010 (Swyddfa Ystadegau Gwladol), roedd poblogaeth Ynys Môn yn 68,592 ac o'r rhain:

- roedd 48.9% yn ddynion / bechgyn a 51.1% yn ferched
- roedd 26.1% o bobl wedi cyrraedd oed ymddeol
- roedd 17.9% yn blant rhwng 0-15 oed

Disgwylir i boblogaeth breswyl Ynys Môn dyfu o 4% rhwng 2006 a 2031, fel arfer o 120 o bobl y flwyddyn. Disgwylir i nifer y bobl rhwng 25-59 leihau o 14%, a'r grŵp rhwng 0-14 oed o 6% erbyn 2031, tra bod cynnydd o 93% yn cael ei ragweld ar gyfer y grŵp 75+ oed. Mae hyn yn bennaf yn adlewyrchu'r ffaith bod pobl yn byw'n hŷn, ond hefyd bod pobl yn symud i mewn i'r ardal i ymddeol (Bywyd Môn 2010).

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2009 (Llywodraeth Cymru):

- roedd 0.6% o'r bobl o gefndiroedd heb fod yn wyn
- roedd 41,800 yn siaradwyr Cymraeg (63.3%)

Dengys ystadegau ar anabledd gan Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, ar 31 Mawrth 2011, fod:

- 280 o bobl wedi eu rhestru ar y Gofrestr Anableddau Dysgu

- 4822 o fathodynnau cerbyd glas wedi eu dosbarthu

- 1828 o unigolion wedi cofrestru gydag anableddau corfforol a nam ar eu synhwyrau – ond dylid nodi, er nad yw pawb gydag anabledd neu nam yn dewis cofrestru â'r adran, bod dal angen rhyw fath o wasanaeth arnynt.

Hefyd, mae 886 o gartrefi'n derbyn gwasanaeth cynorthwyo i gasglu gwastraff gan y Cyngor yn ôl data a gedwir gan yr Adain Rheoli Gwastraff.

Mae'r wybodaeth gefndirol ranbarthol a lleol ar gyfer yr amcanion cydraddoldeb a'r meysydd gweithredu hefyd yn wybodaeth berthnasol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes gennym ddarlun llawn o faint, natur na chymhlethdod yr holl grwpiau a warchodir ar Ynys Môn.   Rydym wedi dechrau mynd i'r afael â hyn drwy ymgysylltu'n lleol ac wedi nodi rhai meysydd lle mae angen gweithredu i lenwi'r bylchau yng ngwybodaeth yr awdurdod (gweler tudalen 26).

**Gwybodaeth am Gyflogaeth a'r Gwahaniaeth Rhwng Cyflogau**

Oherwydd absenoldeb system electronig berthnasol o'r math diweddaraf, nid yw Adnoddau Dynol wedi gallu cadw cofnodion na monitro data cywir am yr holl weithlu.  Rydym wedi ceisio mynd i'r afael â hyn trwy'r gweithrediadau sydd wedi eu hadnabod o dan amcan cydraddoldeb 3 - lleihau anghydraddoldebau mewn cyflogaeth (tudalen 21).

**Hyrwyddo Gwybodaeth a Dealltwriaeth**

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i staff gael dysgu a datblygu er mwyn eu galluogi i berfformio i'w llawn potensial.  Rydym hefyd yn cydnabod y pwysigrwydd bod pobl ar draws yr awdurdod yn gwybod am y dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried fel rhan o'u gwaith pan mae hynny'n berthnasol.  Rydym wedi mynd i'r afael â hyn trwy'r maes gweithredu 'mae rhaglen hyfforddiant staff yn ei lle i sicrhau bod gan y staff iawn y sgiliau iawn i ddarparu gwelliannau cydraddoldeb' (tudalen 30).

DRAFT

## Asesu Effaith

Rydym yn gweithio tuag at sicrhau ymagwedd gyson ar draws yr awdurdod yn nhermau cwblhau asesiadau cadarn. Mae templed a chanllawiau ar gyfer cwblhau asesiadau effaith wedi'u datblygu a'u harbrofi dros y misoedd diwethaf. Mae'r dogfennau hyn ar gael i'w defnyddio i swyddogion ac fe fyddant yn cael eu hadolygu a'u gwella yn achlysurol a hynny'n seiliedig gan fwyaf ar unrhyw sylwadau neu awgrymiadau gan y rhai hynny sydd wedi'u defnyddio.

Yn ychwanegol, cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi yn ystod mis Tachwedd 2011 mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd swyddogion ar draws y Cyngor yn bresennol yn y sesiynau hyn a oedd yn canolbwyntio ar ofynion y ddeddfwriaeth newydd ac yn cynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos gwirioneddol er mwyn cynorthwyo'r dysgu.

Yn nhermau cwrdd â gofynion o ran cyhoeddi, cyhoeddir pob adroddiad i bwyllgor yn ar wefan y Cyngor. Rhoddir crynodeb o ganlyniad pob asesiad o effaith mewn adroddiadau i bwyllgor. Mae'r templed a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd y Comisiynwyr yn cynnwys rhan benodol sy'n gofyn i swyddogion amlinellu unrhyw 'oblygiadau ar gydraddoldeb'.

Lle mae hi'n glir o'r asesiad bod yr effaith ar allu'r awdurdod i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol yn neu'n debygol o fod yn sylweddol, yna bydd adroddiadau yn cynnwys yr elfennau a ddisgrifir isod:

- Pwrpas y polisi neu'r arfer sydd wedi ei asesu
- Y camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd i gyflawni'r asesiad o'r polisi neu'r arfer hwn
- Crynodeb o'r wybodaeth a gymerwyd i ystyriaeth
- Canlyniadau'r asesiad
- Y penderfyniad a wnaed mewn perthynas â'r asesiad

## Cydweithio

Mae swyddogion cydraddoldeb ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol yn y Gogledd, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac yn Heddlu Gogledd Cymru wedi rhannu arferion da ers blynyddoedd lawer. Ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, rydym wedi bod yn cydweithio i symud yr agenda gydraddoldeb yn ei blaen ac i fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yn y Gogledd.

Yn 2011, cynhaliodd rhwydwaith Gogledd Cymru gyd-weithgareddau i ddatblygu cyfres o gydamcanion a gytunwyd arnynt gan bob partner. Y rhain yw:

1. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd**
2. Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion
3. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Gwaith a Chyflog**
4. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Diogelwch Personol**
5. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychioli a Llais y Bobl**
6. Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **Mynediad** i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Mae cyfres o feysydd gweithredu i gyd-fynd â phob amcan. Mae gwahanol bartneriaid wedi cytuno i gyfrannu at wahanol feysydd gweithredu. Rhoddir manylion ar sut ddatblygwyd ein cydamcanion yn ein dogfennau partneriaeth:

- Amcanion Cydraddoldeb ar y Cyd - prosiect gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru - Atodiad 1
- Dogfen Ymchwil a Chefndir – Atodiad 2

## Ymgysylltu

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi barn y cyhoedd, ei ddefnyddwyr gwasanaeth, ei bartneriaid a grwpiau budd eraill, fel rhan o ddarparu gwasanaethau effeithiol sy'n diwallu anghenion pobl Ynys Môn. Drwy holi a gweithredu ar farn y bobl hyn, gall y Cyngor sicrhau bod ei wasanaethau'n adlewyrchu anghenion a dyheadau pawb yn well.

Un enghraifft o sut yr ydym yn ymgysylltu gydag amrediad eang o fudiadau ac unigolion er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw bryderon o ran cydraddoldeb yw'r Fforwm Gynhwysol Cefnogi Pobl. Menter polisi cymdeithasol a fframwaith cyllidol gan Lywodraeth Cymru yw'r rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n darparu cefnogaeth mewn perthynas â materion tai i amrediad o bobl fregus. Mae'n ofynnol bod Cynlluniau Gweithredol Cefnogi Pobl, sy'n gosod allan blaenoriaethau'r Awdurdod am y flwyddyn ddilynol, yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol   Nod y Fforwm Gynhwysol Cefnogi Pobl yw sicrhau fod grwpiau defnyddwyr y gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill yn derbyn gwybodaeth am y rhaglen Cefnogi Pobl er mwyn eu galluogi i ymgysylltu a chyfrannu'n effeithiol i'r broses o gynllunio a chomisiynu. Mae Cynlluniau Gweithredol Cefnogi Pobl yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Dechreuodd ein gweithgareddau ymgysylltu, i bwrpas datblygu'r Cynllun hwn, gyda digwyddiad rhanbarthol a gynhaliwyd gan Rwydwaith Cydraddoldebau Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ar 20 Medi 2011 yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno.

Wrth nodi blaenoriaethau lleol, rydym wedi ystyried gwybodaeth leol a gasglwyd o amrywiol ffynonellau, fel yn y sioe deithiol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2011, mewn cyfarfod ymgysylltu lleol, o adborth ysgrifenedig, drwy drafod ag unigolion ac o wybodaeth a ddelir gan wasanaethau unigol yn dilyn ymgynghoriad.

Mae ymgynghori ac ymgysylltu'n well yn gyffredinol gyda grwpiau a warchodir wedi'i nodi fel blaenoriaeth wrth ymgysylltu ar lefel ranbarthol a lleol. I fynd i'r afael â hyn, mae rhai gweithrediadau wedi'u nodi (gweler tudalen 26).

## Amcanion Cydraddoldeb

Fel y nodir ar dudalen 4, ymrwymwn i wreiddio cydraddoldeb o fewn gwaith yr awdurdod ar bob lefel drwy integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb o fewn yr holl waith gwella presennol yn ein strategaethau a'n cynlluniau presennol. Adlewyrchir hyn yn yr amcanion cydraddoldeb sydd wedi eu nodi, o ran eu bod yn ffurfio cymysgedd o waith sydd ar y gweill o fewn y strategaethau presennol a hefyd mewn rhai meysydd newydd.

Mae'r tudalennau canlynol yn egluro sut wnaethom ddewis cyfrannu at y chwe chydamcan cydraddoldeb a benderfynwyd arnynt gan rwydwaith Gogledd Cymru. Hefyd, mae seithfed amcan wedi'i adnabod er mwyn rhoi sylw i faterion lleol.

Crynhoir yr holl amcanion, y gweithredu a'r amserlen yn Atodiad 3 i'r Cynllun hwn.

DRAFT

## **Amcan Un:** Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd**

Maes Gweithredu: Nifer y bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy’n dewis ffyrdd iach o fyw yn cynyddu

Mae cynlluniau mewn lle eisoes ym Môn i annog grwpiau penodol i fod yn fwy heini. Er enghraifft:

- Trwy fenter gan Chwaraeon Anabledd Cymru, y prif nod yw cynyddu’r nifer o bobl anabl sy’n cymryd rhan reolaidd mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

- Nod cynlluniau Campau’r Ddraig Chwaraeon Cymru a chynlluniau 5 x 60 yw cael pob plentyn yn ymrwymo i chwaraeon trwy gydol eu bywydau. Blaenoriaethau allweddol y cynlluniau hyn yw cynyddu’r niferoedd sy’n cymryd rhan, gyda phwyslais penodol ar annog mwy o enethod i wneud gweithgareddau corfforol.

- Mae Camu Allan, un arall o fentrau Chwaraeon Cymru, yn anelu at ddatblygu rhaglen gerdded gynhwysol ac amrywiol i oedolion. Cynllun cyffrous arall i rai ifanc ac oedolion yw’r fenter beicio sy’n addas iawn ar gyfer mentrau rhwng cenedlaethau.

Yn ei chynllun ‘Creu Cymru Egnïol’, mae Llywodraeth Cymru’n nodi bod y bobl sy’n gorfforol weithgar 50% yn llai tebygol o gael clefyd cronig difrifol a rhwng 20-30% yn llai tebygol o farw cyn eu hamser. Dim ond 32% o’r oedolion ar Ynys Môn sy’n adrodd eu bod yn cwrdd â’r canllawiau cymeradwy o 5 sesiwn hanner awr o weithgarwch corfforol yr wythnos, a dywed 54% o’r oedolion ar Ynys Môn eu bod dros eu pwysau.

Mae Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd wedi gweithio gyda’i gilydd i baratoi cydweledigaeth ar gyfer ‘Creu Gwynedd a Môn Egnïol - ychydig yn fwy bob dydd...’. Cytunwyd ar naw blaenoriaeth weithredu o ganlyniad i drafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- Adnabod y grwpiau mwyaf segur a datblygu darpariaeth a chymorth wedi’i deilwrio ar eu cyfer fel bod oedolion, teuluoedd, plant a phobl ifanc yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol.

  a

- Sicrhau bod gan bobl gyfle cyfartal i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol

DRAFT

Yn ogystal, cytunir ar fesuriadau llwyddiant wrth ddatblygu gweithgareddau a phrosiectau newydd i hyrwyddo gweithgarwch corfforol. Ehangir ar y rhain yn y cynllun gweithredu sydd i'w ddatblygu cyn diwedd mis Mawrth 2012.

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd:

Parhau i ddarparu gweithgareddau i grwpiau a dargedir ac, mewn rhai meysydd, cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan

Rhoi ar waith y gweithrediadau perthnasol o fewn y cynllun gweithredu ar gyfer 'Creu Gwynedd a Môn Egnïol'

Mae'n bwysig nodi bod yna rhai cynlluniau lle nad ydym yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n cymryd rhan a hynny oherwydd bod rhai cynlluniau wedi cyflawni hynny a wnaent. Er enghraifft, mae Chwaraeon Anabledd Cymru yn newid y pwyslais o gynyddu niferoedd sy'n cymryd rhan i gefnogi clybiau i fod yn gallu darparu cyfleoedd hygyrch i bobl anabl gymryd rhan ac i ddarparu sesiynau o well ansawdd trwy achrediad.

DRAFT

## **Amcan Un:** Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd**

Maes Gweithredu: Gofal ar gyfer pobl hŷn yn cael ei wella i sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch

Yn 2008 ar y Diwrnod Pobl Hŷn Cenedlaethol, lansiodd Lywodraeth Cynulliad Cymru'r Rhaglen Urddas mewn Gofal. Nod y rhaglen yw cael system ofal lle nad yw cam-drin a diffyg parch at bobl hŷn yn cael ei oddef o gwbl. Sefydlodd y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol ar Ynys Môn gyd-drefniadau gweithio i weithredu'r rhaglen Urddas mewn Gofal ar lefel leol. Un o'r prif bethau a lwyddwyd i'w gwneud oedd datblygu **Siarter Urddas mewn Gofal** mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'r Siarter yn canolbwyntio ar barch, preifatrwydd, hunanwerth ac awtonomi.

Yn ôl yr adroddiad "Gofal Gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru" gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, profiad gormod o bobl hŷn yw nad ydynt yn cael eu rhyddhau mewn ffordd effeithiol a phrydlon. Argymhellodd yr adroddiad fod Byrddau Iechyd, yr Ymddiriedolaeth ac awdurdodau lleol yn cyd-ddatblygu prosesau comisiynu gwasanaethau a gofal mwy pwrpasol ac effeithiol i bobl hŷn.

Mae bwriadau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau'r Cyngor i'r dyfodol, sef symud o oedi wrth drosglwyddo gofal i drosglwyddo effeithiol, yn rhan o **Strategaeth Gomisiynu Pobl Hŷn 2011-14** y Cyngor, sef y ddogfen y bydd y Cyngor yn ei defnyddio i lunio gwasanaethau i ymateb i anghenion gofal cymdeithasol pobl hŷn heddiw ac i'r dyfodol.

Mae Bwrdd Raglen Gwasanaethau Oedolion wedi cael ei sefydlu er mwyn goruchwylio a llywio gweithrediad y strategaeth. Bydd ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr, asiantaethau partnerol, cymunedau lleol, staff, aelodau, y trydydd sector, darparwyr a hapddalwyr eraill yn rhan annatod o'r rhaglen. Bydd y wybodaeth yr ydym wedi ei chasglu fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cael ei gymryd i ystyriaeth hefyd er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn adnabod pryderon y gwahanol grwpiau o bobl hŷn

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd parhau i weithio tuag at weithredu Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Pobl Hŷn y Cyngor

Mae adroddiadau cynnydd ar weithredu'r strategaeth hon yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i Fwrdd y Comisiynwyr a'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

DRAFT

## **Amcan Un:** Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd**

Maes Gweithredu: Anghenion pobl gydag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl yn cael eu deall yn well

Mae pobl sydd ag anableddau dysgu wedi dweud wrthym fod arnynt eisiau byw bywydau llawn a chynhwysol lle medrant fod mor annibynnol â phosibl, a chael eu cefnogi i gymryd risg wrth gyfrannu at eu cymunedau lleol ac at gymdeithas fel dinasyddion gwerthfawr.

Mae grymuso, dewis, rheolaeth ac ymgysylltu i oedolion sydd ag anabledd dysgu ar Ynys Môn wedi'i nodi fel un o'r canlyniadau yn **Strategaeth Gomisiynu Anableddau Dysgu 2012-15** y Cyngor, a ddefnyddir gan y Cyngor i lunio gwasanaethau i ymateb i anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu heddiw ac i'r dyfodol.

Cawsom wybod hefyd ei bod yn hanfodol ein bod yn llawn deall ac yn ystyried anghenion gofalwyr wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau. Nod y Strategaeth Gomisiynu yw mynd i'r afael â hyn drwy ymgysylltu'n fanwl a pharhaus gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr / teuluoedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr awdurdod mewn sefyllfa well i wrando ar ac ymateb yn rhagweithiol i negeseuon pwysig. Bydd y wybodaeth yr ydym wedi ei chasglu fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cael ei gymryd i ystyriaeth hefyd er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn adnabod pryderon y gwahanol grwpiau o bobl sydd ag iechyd meddwl gwael ac anableddau dysgu.

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd parhau i weithio tuag at weithredu Strategaeth Gomisiynu Anableddau Dysgu 2012-15 y Cyngor.

Llywodraethir y gwaith o ddarparu'r strategaeth gan Grŵp Cynllunio Anableddau Dysgu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cwrdd pob chwarter, tra cyflwynir adolygiad cynnydd blynyddol i'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Oedolion ac i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.

DRAFT

**Amcan Dau:** Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion

Maes Gweithredu: Bwlch cyflawniad addysgol rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng

Gwybodaeth gefndirol – i'w gynnwys.

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd:

Cynnal perfformiad disgyblion sydd ag anableddau corfforol a synhwyrol ar ddiwedd pob un o'r Cyfnodau Allweddol fel nad oes unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol

Sicrhau na fydd unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol yn 16+ oed ar gyfer disgyblion lle mae Saesneg yn iaith arall (EAL) iddynt ac sydd wedi bod yn ysgolion yr awdurdod am fwy na thair blynedd

Haneru'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, lle mae'n fwy na 10%

DRAFT

**Amcan Dau:** Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion

Maes Gweithredu: Bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth yn gostwng mewn ysgolion

Roedd y problemau a godwyd wrth ymgysylltu'n lleol yn cynnwys agweddau negyddol a diffyg dealltwriaeth. Tynnwyd sylw hefyd at stigma ynghylch iechyd meddwl.

Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd Lywodraeth Cymru ganllawiau gwrth-fwlio newydd 'Parchu Eraill'. Mae'r dogfennau newydd yn adeiladu ar ganllawiau a ddaeth allan yn 2003 ac yn rhoi cyngor manwl i ysgolion ar sut i ymateb i ac atal bwlio. Rhoddir hefyd enghreifftiau o ymarfer da, astudiaethau achos a gwahanol senarios. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys dogfen drosolwg a phum dogfen ar wahân, sy'n rhoi cyngor ar y canlynol:

- Bwlio homoffobig
- Bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig
- Bwlio ar sail hil, crefydd a diwylliant
- Bwlio ar sail anghenion addysgol arbennig ac anableddau
- Seiber-fwlio

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd darparu hyfforddiant i ysgolion mewn ymateb i ganllawiau gwrth-fwlio newydd Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill' (Hydref 2011).

DRAFT

**Amcan Dau:** Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion

## Maes Gweithredu Lleol: Darparu hyfforddiant i ysgolion ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth

Gwyddom fod yn rhaid i ysgolion gwrdd â dyletswyddau cyffredinol a phenodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac, fel rhan o ganllawiau Hunanasesu Estyn, bod angen i ysgolion ystyried y cwestiynau isod:

'CIF 2.4.1
Pa mor dda ydyn ni'n gwerthuso ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth ein hysgol?

Ydyn ni'n darparu hyfforddiant cydraddoldeb priodol i'r staff?'

O ystyried yr uchod, byddwn yn darparu hyfforddiant i ysgolion i godi eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

DRAFT

## **Amcan Tri:** Gostwng anghydraddoldebau o ran **Gwaith**

### Maes Gweithredu: Anghydraddoldebau o ran prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu yn cael eu canfod a'u datrys

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw un sy'n ymgeisio am swydd neu unrhyw un sy'n gweithio iddo yn derbyn triniaeth llai ffafriol oherwydd unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig, ac nad ydynt dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion nad oes modd eu cyfiawnhau. Rydym yn cydnabod bod glynu wrth ein polisïau ac arferion cyflogaeth berthnasol yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o unigolion, a hynny er budd y sefydliad a'r gweithwyr eu hunain.

Un enghraifft o hyn yw polisi'r awdurdod ar yr hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg. Gall rhieni wneud cais i weithio oriau hyblyg os oes ganddynt blentyn neu blant 16 oed neu lai, cyfrifoldebau gofalu am blentyn neu blant anabl o dan 18 oed ac os ydynt yn gofalu am oedolyn sydd yn briod â neu sy'n bartner neu'n bartner sifil i'r gweithiwr neu weithwraig; sy'n berthynas agos; neu sydd yn byw yn yr un cyfeiriad.

Mae'r awdurdod yn edrych ar ddatblygu strategaethau pellach er mwyn cynorthwyo staff i weithio'n hyblyg.

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd:

Codi ymwybyddiaeth ymysg staff am yr hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg

Edrych ar ddatblygu strategaethau pellach er mwyn cynorthwyo staff i weithio'n hyblyg

DRAFT

## **Amcan Tri:** Gostwng anghydraddoldebau o ran **Gwaith**

### Maes Gweithredu: Unrhyw fylchau mewn cyflogau rhwng gwahanol nodweddion a ddiogelir yn cael eu nodi ac ymdrin â nhw

Fel yr ydym wedi nodi eisoes ar dudalen 9, oherwydd absenoldeb system electronig berthnasol o'r math diweddaraf, nid yw Adnoddau Dynol wedi gallu cadw cofnodion na monitro data cywir am yr holl weithlu. Rydym yn ceisio mynd i'r afael a hyn trwy sefydlu system adrodd electronig newydd ar gyfer data am y gweithlu, a hynny i gyd-fynd â system AD electronig newydd sydd i ddod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2012. Bydd y system newydd yn cynnwys proses hunanwasanaeth a fydd yn cael ei gynnig i bob aelod staff sy'n gweithio mewn swyddfa fel bod modd iddynt ddiweddaru unrhyw fanylion personol perthnasol pan fydd angen.

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd datblygu system a fydd yn galluogi'r Awdurdod i ganfod unrhyw fylchau cyflog ar sail rhyw. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu i gynnwys pob un o'r nodweddion a warchodir yn dilyn cwblhau arfarnu swyddi a statws sengl.

O ran y dyfodol, bwriedir dadansoddi data am y gweithlu flwyddyn ar flwyddyn a chynhyrchu adroddiad blynyddol o'r wybodaeth a ddadansoddir.

DRAFT

## **Amcan Pedwar:** Gostwng anghydraddoldebau o ran **Diogelwch Personol**

### Maes Gweithredu: Nifer y digwyddiadau o adrodd trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb

Yn ôl "O'r golwg yng ngolwg pawb", ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu cysylltiedig ag anabledd (Medi 2011), gall aflonyddu ddigwydd o flaen llygaid pobl eraill a'r awdurdodau heb gael ei adnabod am yr hyn ydyw.

Cawsom hefyd rywfaint o adborth lleol y byddai darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol yn cael ei weld i fod yn ymarfer da er mwyn gwella dealltwriaeth cyffredinol am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyfforddiant wedi cael ei nodi fel maes gweithredu o dan Amcan Saith – Gwella Gweithdrefnau'r Cyngor i sicrhau tegwch i bawb.

O ran tenantiaid y Cyngor, mae 'Tegwch a Chydraddoldeb' yn un o'r amcanion yn Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol 2011-14 y Cyngor. Mae sicrhau bod gan denantiaid fynediad at drefniadau priodol i adrodd unrhyw wahaniaethu neu ymddygiad amhriodol wedi'i nodi'n barod fel un o'r meysydd ar gyfer gwella yn y Strategaeth hon.

### Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd datblygu trefniadau hygyrch fel bod tenantiaid yn gallu adrodd unrhyw wahaniaethu neu sylwadau ac ymddygiad amhriodol mewn digwyddiadau cyfranogi.

Bydd cynnydd ar ddarparu'r gweithredu hwn yn cael ei fonitro gan y Gweithgor Cyfranogiad Tenantiaid.

Dylid nodi mai dim ond un rhan o'r darlun yw'r weithred uchod.  Efallai y daw rhagor o weithrediadau i'r amlwg maes o law wrth i ni barhau i weithio gyda'n partneriaid.

DRAFT

## **Amcan Pedwar:** Gostwng anghydraddoldebau o ran **Diogelwch Personol**

### Maes Gweithredu: Nifer y digwyddiadau o adrodd camdriniaeth ddomestig yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng camdriniaeth ddomestig

Mae Fforwm Cam-drin Domestig Ynys Môn, sy'n cael ei arwain gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn, ac fel y fforwm hynaf o'i fath yng Nghymru, yn cynrychioli'r holl asiantaethau perthnasol sy'n gweithio ar draws Ynys Môn. Ymhlith ei amcanion mae ymrwymiad i godi ymwybyddiaeth ac i ddeall deinameg arbennig cam-drin domestig yn y gymuned. Mae'r sefydliadau sy'n aelodau o'r fforwm yn cynnwys CAFCASS, Cefnogaeth i Ddioddefwyr Môn/Gwynedd, Gorwel - Gwasanaeth Trais yn y Cartref, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Prawf, NSPCC, Tai Hafan, Tai Eryri, Medrwn Môn, Canolfan Lôn Abaty a Chymunedau'n Gyntaf.

Mae sylwadau a dderbyniwyd gan Gymorth i Fenywod Cymru, gan gynnwys enghreifftiau o amcanion cydraddoldeb, wedi eu cyfeirio at y Fforwm uchod am sylw.

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd:

I'w ddiweddaru - gweithrediadau i'w gytuno drwy ymgynghori â Fforwm Cam-drin Domestig Ynys Môn yn ei gyfarfod nesaf.

DRAFT

## **Amcan Pump:** Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychioli a Llais y Bobl**

### Maes Gweithredu: Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychioladol o'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu

Mae adnewyddu democrataidd wedi'i nodi'n barod fel blaenoriaeth i Ynys Môn.

Oed cyfartalog cynghorwyr trwy'r wlad yw 58, gyda 3.5% o dan 30. Er bod merched yn cyfrif am 51.1% o'r boblogaeth, ar hyn o bryd dim ond dwy gynghorydd sy'n ferched ar Ynys Môn. O'r 40 o ranbarthau etholiadol sirol ar Ynys Môn a gynrychiolir gan un Cynghorydd Sir, mae nifer yr etholwyr ym mhob rhanbarth yn amrywio rhwng 681 a 1809.

Ar 16 Mawrth 2011, derbyniodd y Cyngor Gyfarwyddyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gofyn i'r awdurdod ddatblygu a gweithredu strategaeth i hyrwyddo adnewyddu democrataidd. Ar 5 Medi 2011 cafodd Strategaeth Adnewyddu Democrataidd ei chymeradwyo gan Fwrdd y Comisiynwyr. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo'r egwyddorion sydd wrth wraidd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Amcanion y strategaeth yw:

- Bod Aelodau'r Cyngor Sir yn gynrychioliadol o ddinasyddion a chymunedau Ynys Môn

- Targedu mwy o ymgeiswyr posib o grwpiau sydd wedi eu tan gynrychioli ar hyn o bryd yn y Cyngor, sef merched a phobl ifanc

- Dweud wrth ein cymunedau beth mae Cynghorwyr yn ei wneud trwy amryfal sianelau gwybodaeth

- Sicrhau bod mwy o bobl yn pleidleisio.

Mae'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer yr etholiad cynghorau sir nesaf ond fe fydd yn cael ei datblygu'n barhaus yn y tymor canolig. Mae cydraddoldeb wedi'i gynnwys fel un o'r blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu, ac mae 'cynyddu mynediad i wasanaethau'r Cyngor a chyfranogiad mewn ymgysylltiad democrataidd' wedi'i nodi fel y canlyniad a fwriedir.

Ar 28 Mawrth 2011, rhoddodd y Gweinidog Gyfarwyddyd i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru i adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer y Cyngor. Fe gyflwynwyd cynigion drafft ym mis Rhagfyr 2011 am sylwadau ac fe ddisgwylir yr argymhellion terfynol i'r Gweinidog yn ystod mis Ebrill 2012.

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd parhau i weithredu, adolygu a datblygu ein Strategaeth Adnewyddu Democrataidd ymhellach.

Mae cynnydd gyda darparu’r Strategaeth yn cael ei fonitro drwy Swyddfa Rheoli Rhaglenni’r Cyngor ac yn cael ei adrodd yn rheolaidd i Fwrdd y Comisiynwyr ac i’r Bwrdd Gwella.

DRAFFT

**Amcan Pump:** Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychioli a Llais y Bobl**

Maes Gweithredu: Ymgynghoriad ac Ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp a warchodir.

Un o'r prif faterion a nodwyd yn lleol oedd pwysigrwydd ymgysylltu. Dywedwyd wrthym fod angen rhoi sylw arbennig i bobl sydd, am beth bynnag rheswm, yn methu neu ddim yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau fel y sioe deithiol a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref 2011. Yn ychwanegol, fe ddylwn hefyd cymryd i ystyriaeth y ffaith nad oes gan bawb fynediad at y rhyngrwyd.

Y farn oedd mai ymgysylltu'n effeithio oedd yr allwedd i fynd i'r afael a materion fel sicrhau bod grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn cael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Canolbwyntiodd trafodaethau ar yr angen i fynd allan i gymunedau gwledig er mwyn cysylltu gyda'r grwpiau hynny sydd yn aml fwyaf angen cefnogaeth. Cafwyd adborth hefyd ar bwysigrwydd cydweithio ymysg sefydliadau lleol er mwyn osgoi dyblygu a dod a gwahanol safbwyntiau, sgiliau a gwybodaeth at ei gilydd.

Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd:

Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i asesu ymarferoldeb strwythurau rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori

Gweithio gyda phartneriaid er mwyn adnabod ac ymgysylltu gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn y boblogaeth leol a gweithio tuag at lenwi'r bylchau a nodwyd mewn data lleol

Gweithio gyda'n partneriaid lleol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau o fewn fforymau cyfredol er mwyn mynd â materion cydraddoldeb yn eu blaen.

DRAFT

**Amcan Chwech:** Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **Mynediad** i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

## Maes Gweithredu: Mynediad i wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer yn gwella

Credwn fod delwedd gorfforaethol gadarn i'r Cyngor yn bwysig i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ein hadnabod wrth dderbyn gwybodaeth gennym, wrth ymweld â'n hadeiladau neu yn gweld staff neu gerbydau'r Cyngor wrth eu gwaith. Mae hefyd yn bwysig bod ein dogfennau'n hawdd i'w darllen i ddefnyddwyr sydd ag anableddau, er enghraifft nam ar y golwg. Mae Llawlyfr Delwedd Gorfforaethol y Cyngor**,** sydd ar gael ar ein safle mewnrwyd**,** wedi'i ddylunio i sicrhau bod staff yn defnyddio arddull gyson ac yn cydymffurfio â safonau corfforaethol ar gyfer dogfennau a deddfwriaeth ar hygyrchedd. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod ein dogfennau ar gael mewn **fformatau eraill** ar gais. Rydym angen sicrhau bod staff yn ddigon ymwybodol o'r anghenion hyn.

Yn ystod yr ymgysylltu lleol, cyfeiriwyd hefyd at rwystrau i fynediad at wybodaeth i'r rhai hynny sydd ddim yn gallu siarad Saesneg na Chymraeg. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar wasanaethau cyfieithu a phwysigrwydd sicrhau bod y gwasanaethau rheng-flaen yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau o'r fath petai angen. Awgrymwyd i ni y byddai darparu canllawiau i staff yn cael ei weld fel arfer da.

O ran **mynediad electronig** at wybodaeth a gwasanaethau, rydym yn anelu at wneud ein gwefan mor hygyrch â phosibl i bawb ac rydym wedi dylunio ein gwefan i gydsynio gydag arweiniad a gofynion y Llywodraeth ac i gyrraedd safonau'r WAI ('Web Accessibility Initiative').

Fodd bynnag, gwyddwn fod angen i ni wella hygyrchedd ein papurau pwyllgor. Mae'r holl bapurau'n ymddangos ar ein gwefan ond, oherwydd natur y dogfennau, nid yw rhai ohonynt yn hollol hygyrch i bobl gyda nam ar eu golwg ac nid yw'n bosibl eu darllen gyda darllenyddion sgrin. Fe ddylai hyn gael ei ddatrys trwy gyflwyno ein system ddemocrataidd newydd. Bydd y system 'ModernGov', a fydd yn hollol hygyrch i bobl gyda nam ar eu golwg, yn cael ei defnyddio i gynhyrchu pob adroddiad pwyllgor ac fe fydd yn weithredol unwaith y bydd yr holl swyddogion perthnasol wedi derbyn hyfforddiant.

O ran tenantiaid y Cyngor, mae ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2011-14 eisoes wedi adnabod yr angen i gael **proffil amrywiaeth o'n tenantiaid** er mwyn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o anghenion unigol. Bydd y gwaith ar ddatblygu'r proffil tenantiaid yn cychwyn dros y misoedd nesaf fel rhan o system gyfrifiadurol newydd i'r gwasanaeth Tai.

## Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd:

DRAFT

Codi ymwybyddiaeth am Lawlyfr Delwedd Gorfforaethol y Cyngor a chynhyrchu canllawiau arfer dda i staff o ran cynhyrchu dogfennau mewn fformatau eraill.

Cynhyrchu canllawiau arfer dda i staff o ran darparu argaeledd gwasanaethau cyfieithu i siaradwyr ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg

Gweithredu'r system ddemocrataidd ModernGov - yr holl swyddogion perthnasol i dderbyn hyfforddiant ar y system newydd erbyn diwedd 2012/13

Datblygu proffil amrywiaeth o denantiaid y Cyngor er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion unigol

DRAFFT

**Amcan Chwech:** Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **Mynediad** i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

## Maes Gweithredu: Mynediad corfforol i wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella

Mae gwaith wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella mynediad at adeiladau, gan gynnwys gwella mynediad at ysgolion a llyfrgelloedd ac mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i osod lifft yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur, Llangefni. Bydd pob adeilad newydd yn hollol hygyrch ac fe fyddwn yn parhau i wneud addasiadau rhesymol er mwyn gwella mynediad at bob adeilad cyhoeddus ynghyd ag ysgolion.

Mae pwysigrwydd **cludiant cyhoeddus hygyrch** wedi'i godi droeon yn y gweithgareddau ymgysylltu lleol a rhanbarthol.

Darperir pob un o'r gwasanaethau bysus dyddiol ar Ynys Môn drwy ddefnyddio bysus llawr isel cwbl hygyrch fel arfer. Rydym hefyd yn gwella ein haros fannau bysus ac, ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, roedd cyrbiau esgyn hawdd yn eu lle mewn 169 o aros fannau bysus. Rydym yn disgwyl i'r nifer gynyddu i 174 erbyn diwedd 2011/12. Fodd bynnag, mae pa mor gyflym y gallwn wella ein arosfannau bysus yn dibynnu ar lefel y cyllid sydd ar gael pob blwyddyn.

Ceir rhai enghreifftiau ar dudalen 7 o sut mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ceisio sicrhau mynediad teg at gludiant i bawb drwy ddarparu cludiant cymunedol a gynorthwyir.

## Ein cyfraniad at y maes gweithredu uchod fydd parhau i wella arosfannau bysus ar yr Ynys i'w gwneud yn hygyrch.

Bydd cynnydd gyda datblygu ein arosfannau bysus yn dibynnu ar gyllid.

DRAFT

## **Amcan Saith:** Gwella **Gweithdrefnau**'r Cyngor i sicrhau tegwch i bawb

### Maes Gweithredu: Mae rhaglen hyfforddiant staff yn ei lle i sicrhau bod gan y staff iawn y sgiliau iawn i ddarparu gwelliannau cydraddoldeb

Nod yr awdurdod yw sicrhau bod gweithwyr gyda'r sgiliau, y galluoedd a'r hyder i ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol gan gymryd ystyriaeth ddyledus i'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth.  Felly, yn ein rôl fel cyflogwr, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i staff gael dysgu a datblygu er mwyn eu galluogi i berfformio i'w llawn potensial.

Fel yr ydym wedi nodi eisoes o dan ein hamcan ar Ddiogelwch Personol, fe ddywedwyd wrthym y byddai darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol yn cael ei weld i fod yn ymarfer da er mwyn gwella dealltwriaeth cyffredinol am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Bwriedir cychwyn hyn trwy gynnig modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb ymysg staff fel sail ar gyfer datblygu'r sgiliau cywir.  O hyn, bwriedir cynnal dadansoddiad er mwyn canfod os oes yna anghenion hyfforddiant pellach.

Byddwn yn:

Codi ymwybyddiaeth ymysg staff y Cyngor am y modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb

Parhau i hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r holl staff a lle mae gwasanaethau wedi adnabod anghenion penodol, megis cynnig hyfforddiant penodol i staff rheng flaen.

Ar gyfer 2013 bydd y tîm Adnoddau Dynol yn edrych ar gynhyrchu adroddiad ar yr holl ddigwyddiadau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth corfforaethol o'r flwyddyn ariannol flaenorol a gynhaliwyd gan yr awdurdod.

DRAFT

**Amcan Saith:** Gwella **Gweithdrefnau**'r Cyngor i sicrhau tegwch i bawb

Maes Gweithredu: Proses gorfforaethol effeithiol wedi'i sefydlu i sicrhau bod asesu effaith yn parhau ar draws gwasanaethau

Disgrifir ein trefniadau ar gyfer asesu effaith ar grwpiau a warchodir ar dudalen 10.

Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella ein proses gorfforaethol wrth sicrhau y defnyddir dull cyson ac effeithiol ar draws yr awdurdod o asesu effaith.

DRAFFT

## **Amcan Saith:** Gwella **Gweithdrefnau'r** Cyngor i sicrhau tegwch i bawb

### Maes Gweithredu: Gweithdrefnau ac arferion yn eu lle fel bod gwasanaethau wedi eu caffael yn cwrdd ag ymrwymiadau a disgwyliadau'r awdurdod ynghylch cydraddoldeb

Gwyddom mai'r Cyngor sy'n dal i fod yn gyfrifol am gwrdd â'r ddyletswydd cyffredinol hyd yn oed lle mae gwaith neu wasanaeth perthnasol yn cael ei gontractio allan i gyflenwr allanol.  Gwyddom hefyd, wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaeth gan sefydliadau eraill ar sail cytundeb perthnasol, bod yn rhaid inni:

- Roi sylw dyledus i'r cwestiwn a fyddai'n briodol i feini prawf dyfarnu'r contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i gwrdd â'r ddyletswydd cyffredinol

- Rhoi sylw dyledus i'r cwestiwn a fyddai'n briodol rhoi amodau yng nghyswllt perfformiad contract i helpu i gwrdd â thri nod y ddyletswydd cyffredinol.

Felly, mae angen inni sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o'n prosesau caffael.

Yn wyneb yr uchod, byddwn yn asesu ein polisïau a strategaeth caffael i ystyried a ydynt yn bodloni amcanion y ddyletswydd yn briodol a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

DRAFT

## Monitro Cynnydd

Bydd cynnydd yn erbyn cyflawni'r gweithrediadau a nodwyd yn y Cynllun hwn yn cael ei fonitro fel rhan o'n trefniadau rheoli perfformiad wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb o fewn ein busnes dydd i ddydd. Bydd ein Grwp Cydraddoldeb Corfforaethol yn adolygu cynnydd ac fe fyddwn yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

## Sut i gysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, cysylltwch â'r Uned Bolisi fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Ffôn: 01248 752561 / 752520

Ffacs: 01248 750839

e-bost: rwhcs@ynysmon.gov.uk

Drwy'r post: Uned Bolisi (Cydraddoldeb)<br>Swyddfa'r Prif Weithredwr<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Swyddfeydd y Cyngor<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW

DRAFT

# Dogfen Ddrafft

# Amcanion Cydraddoldeb ar y Cyd

## Prosiect gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill

Cysylltwch â XXXX
Cyngor Bwrdeistref Sirol XXXX
E-bost: 💻 XXXX
Ffôn: ☎ XXXX

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Sut wnaethom ni ddatblygu ein hamcanion** | **4** |
| **Amcan Un: Gostwng anghydraddoldebau o ran iechyd** | **6** |
| **Amcan Dau: Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran Addysg er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion** | **7** |
| **Amcan Tri: Gostwng anghydraddoldebau o ran Gwaith a Chyflog** | **7** |
| **Amcan Pedwar: Gostwng anghydraddoldebau o ran Diogelwch Personol** | **7** |
| **Amcan Pump: Gostwng anghydraddoldebau o ran Cynrychioli a Llais y Bobl** | **8** |
| **Amcan Chwech: Gostwng anghydraddoldebau o ran cael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd** | **8** |
| **Atodiad A: Papurau Ymchwil ac Adroddiadau** | **9** |
| **Atodiad B: Rhestr Termau** | **10** |

# Cyflwyniad

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ym mis Hydref 2010. Mae'r Ddeddf newydd yn rhoi Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig, wrth gynnal eu gwaith, (a phan fo pobl eraill yn cynnal gwaith cyhoeddus) i ystyried:

– Yr angen am gael gwared ar ymddygiad sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf;
– Yr angen i ddatblygu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd berthnasol a ddiogelir, a'r rheiny nad ydynt yn rhannu hynny;
– A'r angen i feithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a ddiogelir, a'r rheiny nad ydynt yn rhannu hynny.

Ym mis Ebrill 2011, defnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bwerau i gyflwyno Dyletswyddau Penodol, a nodir y rhain yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Cyflwynwyd y Rheoliadau i helpu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i weithredu eu Dyletswydd Cyffredinol yn well (Gallwch weld y rhestr llawn o'r dyletswyddau o'r ddolen gyswllt sydd yn Atodiad B).

Dan y Rheoliadau hyn, rhaid i bob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru nodi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Rhaid i'r amcanion hyn fod yn seiliedig ar wybodaeth berthnasol a ddelir gan bob sefydliad a chan bartïon perthnasol eraill. Rhaid ystyried data neu ymchwil cenedlaethol hefyd, er enghraifft, adroddiad Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "Pa mor deg yw Cymru".

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amcanion cydraddoldeb ar y cyd ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

### Gwybodaeth am y Grŵp

Mae swyddogion Cydraddoldeb pob un o'r chwech Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru wedi rhannu arfer da am flynyddoedd lawer. Wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, mae'r sefydliadau hyn wedi bod yn gweithio ar y cyd dan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus

# Cyflwyniad

Gogledd Cymru (y Rhwydwaith) i ddatblygu'r rhaglen gydraddoldeb ac ymdrin â materion sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

**Gwybodaeth am yr Amcanion ar y Cyd**

Ymchwiliodd aelodau o'r grŵp yn helaeth i adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas ag anghydraddoldebau er mwyn archwilio'r data manwl sydd wedi arwain at ddatblygu amcanion ar y cyd.

Rydym hefyd wedi datblygu nifer o feysydd gweithredu sy'n tanategu ein hamcanion cydraddoldeb ar y cyd. Rydym ni'n credu y bydd y rhain yn helpu i ymdrin â'r anghydraddoldebau a nodwyd.

Yna, bydd cynllunio manwl yn y sefydliadau yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb hyn.

Rydym ni'n cytuno'n llwyr â'r athroniaeth "Dim byd amdanom ni, hebom ni", ac rydym ni'n credu ei bod hi'n hanfodol cynnwys a chysylltu gydag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys y rheiny sy'n cynrychioli pobl o bob un o'r nodweddion a ddiogelir i wneud yn siŵr ein bod yn ymdrin â'r materion sy'n berthnasol yng Ngogledd Cymru heddiw.


# Sut wnaethom ni ddatblygu ein hamcanion

Yn ystod 2011, mae'r rhwydwaith wedi cynnal gweithgareddau ar y cyd i ddatblygu cyfres o amcanion ar y cyd, ac mae pob partner wedi cytuno â nhw, fel a ganlyn:

1. Gostwng anghydraddoldebau o ran Lechyd
2. Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran Addysg er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion
3. Gostwng anghydraddoldebau o ran Gwaith a Chyflog
4. Gostwng anghydraddoldebau o ran Diogelwch personol
5. Gostwng anghydraddoldebau o ran Cynrychioli a Llais y Bobl
6. Gostwng anghydraddoldebau o ran cael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

### Datblygu'r Amcanion

Defnyddiwyd y model syml hwn i ddatblygu'r amcanion hyn ac ystyried amrywiol ofynion y Dyletswyddau Penodol.




### Ymchwil Cenedlaethol

Mae ymchwil cenedlaethol yn bwysig wrth ddarparu man cychwyn ar gyfer nodi anghydraddoldebau yng Ngogledd Cymru. Mae ymchwil sylfaenol yn cymryd amser ac yn defnyddio llawer o adnoddau ac mae'n dueddol o fod ym myd academaidd, adrannau'r llywodraeth a'r sefydliadau mwyaf yn y trydydd sector. Gall ymchwil yng Nghymru a'r DU fod yn anodd i sefydliadau sector cyhoeddus unigol. Fel partneriaeth, rydym ni wedi dod â rhai o'r materion allweddol ynghyd â'r casgliadau am amrywiaeth o ymchwil cenedlaethol yn y gorffennol. Gwelir rhestr o adroddiadau a ddefnyddiwyd ar gyfer ein gwaith yn Atodiad A.

# Sut wnaethom ni ddatblygu ein hamcanion

### Gwybodaeth Leol

Mae gwybodaeth leol sydd gan bob awdurdod cyhoeddus hefyd wedi ein helpu. Mae llawer o'r wybodaeth yma yn ddefnyddiol wrth ateb cwestiynau fel 'ydi'r tueddiadau cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu yn fy ardal?', ac wrth ein galluogi i nodi'r materion lleol sydd, o bosib, ddim yn cael eu cydnabod yn lleol. Rydym wedi nodi amrywiaeth o feysydd lle bo'r amrywiaeth cyfredol o wybodaeth leol sydd ar gael yn annigonol ac mae angen datblygu mwy o elfennau.

### Gwybodaeth wrth Ymgysylltu

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyfranogion Rhanbarthol ar 20 Medi 2011 yng Nghanolfan Fusnes Conwy oedd yn cysylltu â nifer o sefydliadau sy'n gweithio ledled Gogledd Cymru. Bydd atborth o'r digwyddiad yn cael ei ddefnyddio i hysbysu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yr awdurdodau cyhoeddus unigol sy'n rhan o'r Rhwydwaith. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar 2 Ebrill 2012. Roedd y digwyddiad hwn yn un cynhwysfawr ac roedd pawb oedd â diddordeb yn y gwaith yn cael ei fynychu, ond megis dechrau ar y gwaith oedd hyn. Byddwn yn parhau i gynnwys pobl drwy hyd y cynlluniau, gan ddefnyddio profiadau amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid i hysbysu ein camau gweithredu manwl a barnu a ydym wedi llwyddo ai peidio a beth arall sydd angen ei wneud.

### Meysydd Gweithredu

Mae Meysydd Gweithredu ynghlwm wrth bob amcan, fel y disgrifir isod. Mae'r Meysydd Gweithredu yn diffinio'r chwe amcan ac yn darparu gwybodaeth ar ba sail mae pob partner wedi cynllunio ei gyfraniad i gyflawni'r chwe amcan.

Mae gwahanol bartneriaid wedi cytuno i gyfrannu at wahanol Feysydd Gweithredu. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu monitro a'u mesur gan ddefnyddio cynlluniau gweithredu unigol a bydd mesuriadau perfformiad yn cael eu dwyn ynghyd gan bob partner.

Disgrifir y Meysydd Gweithredu ar gyfer bob amcan isod. Gellir gweld crynodeb o'r gwaith ymchwil, a'r wybodaeth o'r camau ymgysylltu ar gyfer pob Maes Gweithredu ynghyd â data am faterion y byddwn yn eu datblygu yn ein dogfen Gefndir ac Ymchwil.

## Amcan Un: Gostwng anghydraddoldebau o ran iechyd

**Os yw…**

| | |
|---|---|
| **Maes Gweithredu 1.1** | Nifer y bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir[1], sy'n dewis ffyrdd iach o fyw yn cynyddu |
| | **A** |
| **Maes Gweithredu 1.2** | Nifer y bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir, sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd yn cynyddu |
| | **A'R** |
| **Maes Gweithredu 1.3** | Gofal ar gyfer pobl hŷn yn cael ei wella i sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch |
| | **A** |
| **Maes Gweithredu 1.4** | Nifer y sipsiwn a theithwyr sy'n manteisio ar wasanaethau gofal iechyd ataliol yn cynyddu |
| | **A** |
| **Maes Gweithredu 1.5** | Pobl drawsrywiol, lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cael eu trin gydag urddas wrth gael gofal |
| | **AC** |
| **Maes Gweithredu 1.6** | Anghenion pobl gydag Anableddau Dysgu neu broblemau Iechyd Meddwl yn cael eu deall yn well |

**…yna** bydd anghydraddoldebau o ran iechyd wedi cael eu gostwng.

[1] Gweler y Rhestr Termau yn Atodiad B

## Amcan Dau: Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran Addysg er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion

**Os yw'r…**

| | |
|---|---|
| **Maes Gweithredu 2.1** | Bwlch cyflawniad addysgol[2] rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng |
| | **A** |
| **Maes Gweithredu 2.2** | Bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth yn gostwng |

**…yna** bydd canlyniadau anghyfartal o ran addysg wedi cael eu gostwng gan alluogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial unigol.

## Amcan Tri: Gostwng anghydraddoldebau o ran Gwaith

**Os yw…**

| | |
|---|---|
| **Maes Gweithredu 3.1** | Anghydraddoldebau o ran prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu yn cael eu canfod a'u datrys |
| | **AC** |
| **Maes Gweithredu 3.2** | Unrhyw fylchau mewn cyflogau rhwng gwahanol nodweddion a ddiogelir yn cael eu nodi, ac ymdrin â nhw |

**…yna** bydd anghydraddoldebau o ran gwaith wedi cael eu gostwng.

## Amcan Pedwar: Gostwng anghydraddoldebau o ran diogelwch personol

**Os yw…**

| | |
|---|---|
| **Maes Gweithredu 4.1** | Nifer y digwyddiadau o riportio trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb |
| | **A** |
| **Maes Gweithredu 4.2** | Nifer y digwyddiadau o riportio camdriniaeth ddomestig yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng camdriniaeth ddomestig |

[2] Gweler y Rhestr Termau yn Atodiad B

**…yna** bydd anghydraddoldebau mewn perthynas â diogelwch personol wedi cael eu gostwng.

### Amcan Pump: Gostwng anghydraddoldebau o ran Cynrychioli a Llais y Bobl

**Os yw…**

| | |
|---|---|
| **Maes Gweithredu 5.1** | Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy amlwg wrth gynrychioli'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu |
| | **AC** |
| **Maes Gweithredu 5.2** | Ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus ac unigolion sy'n cynrychioli pobl leol o bob grŵp wedi'i ddiogelu |

**…yna** bydd anghydraddoldebau o ran cynrychioli a llais y bobl wedi cael eu gostwng.

### Amcan Chwech: Gostwng anghydraddoldebau o ran cael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

**Os yw…**

| | |
|---|---|
| **Maes Gweithredu 6.1** | Mynediad i wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer yn gwella |
| | **A** |
| **Maes Gweithredu 6.2** | Mynediad corfforol i wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella |

**…yna** bydd anghydraddoldebau o ran mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd wedi cael eu gostwng.

# Atodiad A – Papurau Ymchwil ac Adroddiadau

*Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru, sail-2008* (2010)

*Gwellhad Syml: Adroddiad Cenedlaethol i brofiadau pobl fyddar a thrwm eu clyw o'r GIG*

*Arolwg Cymru gyfan o Fwlio mewn ysgolion – Llywodraeth Cymru* (2009)

*Arolwg Poblogaeth Flynyddol* (2011)

*Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion* (2011)

*Cyhoeddiadau EHRC Cymru*

*Yn benodol;* *Dadansoddiad o ran anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru WISERD ar gyfer EHRC Cymru (2011)*

Victoria Winckler Ed, *Materion Cydraddoldeb yng Nghymru: Adolygiad Ymchwil* The Bevan Foundation ar gyfer EHRC Cymru (2010)

*Adolygiad Teirblwydd Cymru 'Pa Mor Deg yw Cymru* EHRC Cymru (2011)

*Pwy sy'n Rhedeg Cymru?* EHRC Cymru (2011)

*a* *Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus: Cau'r Bylchau* EHRC Cymru (2009)

*Datganiadau Dylunio a Mynediad*, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)

*Tlodi Anabledd yng Nghymru*, Leonard Cheshire Disability, (Mawrth 2011)

Profiadau a Disgwyliadau Pobl Anabl: Adroddiad ymchwil ar gyfer y Swyddfa Materion Anabledd

*Lesbian, Gay And Bisexual people in later life* **Stonewall/YouGov (2011)**

*Crynodeb o Berfformiad Cynllun Heddlu Blynyddol Heddlu Gogledd Cymru*, (yn cael ei ddiweddaru yn fisol)

*'Defnydd Cludiant Cyhoeddus yng Nghymru, 2005- 2006'*, Bwletin Ystadegol 29/2008

*Streets Ahead Campaign Report* Disability Wales (Awst 2009)

E. Sibley , Towards and Inclusive Health Service: A research Report into the availability of Health Information for blind and partially sighted people, (2009)

*UK Triennial Review 'How Fair is Britain?'* EHRC (2010)

Arolwg Iechyd Cymru (2009)

Vikki Butler, *Young people's experiences of, and solutions to, identity related bullying: Research report* Barnardos (2009)

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Hidden in Plain Sight, Adroddiad yr Ymchwiliad i aflonyddwch yn ymwneud ag anabledd.

# Atodiad B – Rhestr Termau

**Bwlch Cyrhaeddiad**

Y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau arholiadau ar gyfartaledd (mewn unrhyw asesiad) ar gyfer un grŵp wedi'i ddiogelu o'i gymharu â grŵp arall.

**Aflonyddwch**

Ymddygiad digroeso sydd â'r diben neu'r effaith o droseddu yn erbyn urddas neu'n creu awyrgylch diraddiol, bychanu, gelyniaethus, dychrynu neu ymosodol.

**Trosedd Casineb / Digwyddiad Casineb**

Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn gwahaniaethu rhwng digwyddiad casineb a throsedd casineb. Dyma eu diffiniad o ddigwyddiad casineb:

"Unrhyw ddigwyddiad, boed yn drosedd troseddol ai peidio, y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, yn teimlo sy'n cael ei gymell gan ragfarn neu gasineb."

Tra bo trosedd casineb yn cael ei ddiffinio'n benodol fel:

"Unrhyw ddigwyddiad o drosedd, sy'n drosedd troseddol, y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, yn teimlo sy'n cael ei gymell gan ragfarn neu gasineb."

**Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru**

Mae chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru, sef Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

**"Dim byd amdanom ni, hebom ni!"**

Dyma slogan a ddefnyddir i gyfathrebu syniad na ddylai polisi gael ei benderfynu gan gynrychiolydd heb gyfraniad llawn ac uniongyrchol aelodau'r grŵp/grwpiau sy'n cael eu heffeithio gan y polisi hwnnw.

**Nodweddion a ddiogelir**

Y nodweddion lle bo gwahaniaethu'n anghyfreithlon – oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil neu gred, rhyw a thueddiad rhywiol.

# Atodiad B – Rhestr Termau

**Grwpiau a ddiogelir**

Pobl sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion a ddiogelir.

**Awdurdod Cyhoeddus**

Sefydliadau ac unigolion sy'n cynnal swyddogaethau cyhoeddus – byddai hyn yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd ac ysbytai, ysgolion, carcharau a'r heddlu er enghraifft.

**Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Cyffredinol)**

Mae dyletswydd ar awdurdod cyhoeddus wrth weithredu ei swyddogaethau i ystyried yr angen i gael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon, meithrin perthnasau da a datblygu cyfle cyfartal.

**Dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus (Dyletswyddau Penodol yng Nghymru)**

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â chyfres o Ddyletswyddau Penodol sydd wedi'u dylunio i'w cynorthwyo i fodloni'r Ddyletswydd Cyffredinol. Gellir cael gwybodaeth am y rhestr lawn o Ddyletswyddau Penodol yn: <http://www.equalityhumanrights.com/wales/publications/guidance-on-the-equality-duty-for-the-welsh-public-sector/>

**Cyfranogion**

Pobl gyda diddordeb mewn testun neu bwnc neu fater sy'n debygol o gael eu heffeithio gan benderfyniad sy'n ymwneud ag o a/neu fod â chyfrifoldebau yn ymwneud ag o.

**Grwpiau a Dangynrychiolir**

Mae hyn yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle bo nifer o bobl gyda nodwedd a ddiogelir yn isel (e.e. mewn gweithle neu ymysg defnyddwyr gwasanaeth) o'u cymharu â'r nifer yn y boblogaeth. Mae pa grŵp a dangynrychiolir yn amrywio o fater i fater a gall newid dros amser. Mewn rhai achosion, mae gwaith yn parhau i bennu pa grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli drwy gasglu data am nifer yn y boblogaeth a'r nifer sy'n defnyddio gwasanaeth benodol neu sy'n perthyn i gorff sy'n gwneud penderfyniadau.

# Dogfen Ddrafft

# Ymchwil a Chefndir

## Prosiect gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.

| |
|---|
| Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill<br><br>Cysylltwch â XXXX<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol XXXX<br>E-bost: 💻 XXXX<br>Ffôn: ☎ XXXX |


# Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd


**Maes Gweithredu 1.1:**
Cynyddu nifer y bobl sy'n dewis ffyrdd iach o fyw mewn grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.


**Ein Hymchwil:**
Dengys ffigurau Cymru gyfan o Arolwg Iechyd Cymru fod dynion yn fwy tebygol o fod yn ysmygwyr na merched ac yn fwy tebygol o fod dros eu pwysau neu'n ordew, tra bo merched yn llai tebygol o gyflawni'r ymarfer corff a argymhellir. Mae ysmygu'n fwy cyffredin ymysg dynion (26%) na merched (22%), ac yn fwyaf cyffredin ymysg rhai 25-34 oed (34%) ac yn lleiaf cyffredin ymysg rhai dros 75 oed (9%).[i]

O ddadansoddi'r arolwg ar raddfa Gogledd Cymru (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), ymddengys mai dyma yw'r sefyllfa yng Ngogledd Cymru hefyd.

Mae Adolygiad Tair Blynedd Prydain yn awgrymu bod pobl o grwpiau lleiafrifol ethnig ar y cyfan yn llai tebygol o yfed ac yn fwy tebygol o fwyta'n iach, ond eu bod yn llai tebygol o gyflawni'r ymarfer corff a argymhellir. Roedd y lefelau ysmygu'n uchel ymysg rhai grwpiau, yn enwedig dynion o Bacistan[1]. Mae tystiolaeth o Wasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru Gyfan yn awgrymu mai ond 2% o'i gleientiaid sy'n dod o grwpiau lleiafrifol ethnig.




[1] GICC 2006, dyfynnwyd yn *Siobhan McClelland Health and Social Care in* Victoria Winckler Ed, Equality Issues In Wales : A Research Review (EHRC:11/ Sefydliad Bevan 2009), sy'n awgrymu y ceir lefelau uchel o ysmygu ymysg dynion o Fangladesh hefyd.

# Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

| |
|---|
| **Datblygu Data:**<br>Mae maint y sampl ar gyfer yr arolwg yn rhy fach i ganiatáu data ystyrlon ar dueddiadau yn naearyddiaethau awdurdod lleol, a hefyd yn rhy fach i ganiatáu dadansoddi ffigurau cadarn, fesul oedran a rhyw gyda'i gilydd, ar gyfer daearyddiaeth Gogledd Cymru. O ganlyniad i hyn, ni allwn ganfod a yw dynion hŷn yng Ngogledd Cymru'n fwy tebygol o ddilyn ffyrdd iach o fyw na dynion iau neu ferched hŷn. Nid yw Arolwg Iechyd Cymru'n cynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach yn ôl nodweddion gwarchodedig. Gan hynny, nid oes modd cael gwybodaeth am ddewisiadau grwpiau ethnig sy'n defnyddio'r arolwg hwn mewn perthynas â ffyrdd iach o fyw. |
| |
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Mae cynrychiolwyr o'r gymuned Islamaidd wedi amlygu rôl arweinwyr Crefyddol wrth hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, yn enwedig mewn perthynas ag alcohol ac ysmygu. Nododd aelodau cymunedol hefyd nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw gyllid a allai fod ar gael ar gyfer prosiectau i ennyn diddordeb pobl o grwpiau diwylliannol lleiafrifol mewn ymarfer corff ac addysg iechyd. |
| |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus ...**<br>Os ceir gostyngiad yn y bwlch rhwng canrannau'r dynion a'r merched sy'n adrodd eu bod yn ysmygwyr<br>**Ac**<br>Os ceir gostyngiad yn y bwlch rhwng canrannau'r dynion a'r merched sy'n adrodd iddynt fodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol yn yr wythnos diwethaf<br>**Ac**<br>Os ceir gostyngiad yn y bwlch rhwng canrannau'r dynion a'r merched sydd dros eu pwysau neu'n ordew<br>**Ac**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi hyrwyddo dewisiadau ar gyfer ffyrdd iach o fyw ymysg grwpiau gwarchodedig eraill a dargedir lle bo'r rheiny wedi'u nodi'n flaenoriaeth. |

# Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd


**Maes Gweithredu 1.2:**
Cynyddu nifer y bobl, mewn grwpiau dangynrychiolir, sy'n derbyn gwasanaethau gofal iechyd.

**Ein Hymchwil:**
Yn ôl ffigurau Cymru gyfan o Arolwg Iechyd Cymru, mae dynion yn llai tebygol na merched o gyrchu amrywiaeth o wasanaethau iechyd. (Siartiau 1).


O ddadansoddi'r arolwg ar raddfa Gogledd Cymru (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), ymddengys mai dyma yw'r sefyllfa yng Ngogledd Cymru hefyd (Siartiau 2).

Adroddodd Cyngor Defnyddwyr Cymru (2005a) ar fynediad defnyddwyr at wybodaeth iechyd, a chasglu bod pobl o grwpiau lleiafrifol ethnig yn wynebu'r rhwystrau canlynol: anawsterau'n canfod cyfieithwyr proffesiynol; colli naturioldeb wrth ddefnyddio cyfieithydd; a meddygon heb fod yn rhoi eglurhad digonol ynghylch salwch neu feddyginiaeth bob tro.[ii]

**Siart 1: Defnydd o Wasanaethau Iechyd Penodol 2009 (Cymru)**




**Siart 2: Defnydd o Wasanaethau Iechyd Penodol 2008-9 (Betsi Cadwaladr/ Gogledd Cymru)**




**Datblygu Data:**
Mae maint y sampl ar gyfer yr arolwg yn rhy fach i ganiatáu data ystyrlon ar dueddiadau yn naearyddiaeth awdurdod lleol, a hefyd yn rhy fach i ganiatáu dadansoddi ffigurau cadarn, fesul oedran a rhyw gyda'i gilydd, ar gyfer daearyddiaeth Gogledd Cymru. O ganlyniad i hyn, ni allwn ganfod a yw dynion hŷn yng Ngogledd Cymru'n fwy neu'n llai tebygol o gyrchu gwasanaethau iechyd na dynion iau neu ferched hŷn. Nid yw Arolwg Iechyd Cymru'n cynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach yn ôl nodweddion gwarchodedig. Gan hynny, nid oes modd cael gwybodaeth am ddewisiadau grwpiau ethnig sy'n defnyddio'r arolwg hwn mewn perthynas â ffyrdd iach o fyw.

# Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

| |
|---|
| Ar raddfa'r sefydliad, mae ystod o ddata dirprwyol ar gael ar gyfer mynediad at wasanaethau iechyd a'r defnydd ohonynt. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r wybodaeth hon y gellir ei dadansoddi ar hyn o bryd fesul grŵp gwarchodedig. 'Er enghraifft, mae'r codau ethnig ar Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW) i raddau helaeth yn anghyflawn, ac ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar lefel gofal sylfaenol'.[iii] Felly, bydd angen archwilio'r potensial i addasu cyfundrefnau casglu er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhan o'r gweithgarwch o dan yr amcan hwn. |
| |
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Roedd yr adborth yn cynnwys trafodaeth ynghylch grwpiau sy'n ei chael hi'n anodd cael gwasanaethau gofal iechyd ac awgrymiadau ar gyfer gwella hyn. Teimlwyd bod angen dealltwriaeth well gan staff rheng flaen mewn perthynas ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a phobl â phroblemau iechyd meddwl. (archwilir hyn ymhellach ym Meysydd Gweithredu 1.5 ac 1.6). Dywedwyd bod y ddealltwriaeth o'r model cymdeithasol o anabledd yn hollbwysig er mwyn gwella mynediad, gan gynnwys yn y lleoliad iechyd. Cafwyd awgrymiadau penodol i'r staff dderbyn hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl. Awgrymwyd fod angen codi mwy o ymwybyddiaeth ymysg defnyddwyr gwasanaeth am y llwybr gofal enghreifftiol i bobl drawsrywiol. Gellir colli'r potensial am arfer da a phrofiadau cadarnhaol oherwydd diffyg gwybodaeth. Amlygwyd y graddau y manteisir ar sgrinio iechyd priodol fel mater neilltuol i bobl drawsrywiol.<br><br>Ystyriwyd bod gwasanaethau dehongli'n allweddol er mwyn sicrhau mynediad. Awgrymwyd sut i wella argaeledd dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a dehonglwyr ieithoedd eraill. Un o'r pryderon a amlygwyd gan gymunedau lleiafrifol ethnig oedd bod defnyddio aelodau o'r teulu fel dehonglwyr yn amhriodol wrth ddelio â materion sensitif a chyfrinachol.<br><br>Gallai risg fodoli i ofalwyr eu hunain, a gallai fod yn anodd iddynt gael mynediad at wasanaethau oherwydd eu hymrwymiad tuag at eraill. Teimlwyd y dylid gwneud mwy i gefnogi gofalwyr a gofalu am eu hanghenion iechyd. Mynegwyd pryder hefyd y gallai ymagweddau 'galluogi neu ail-alluogi' tuag at ofal gyfyngu ar fynediad at rai gwasanaethau. Yn olaf, nodwyd nad oedd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru fynediad at rai gwasanaethau nad oeddynt ond ar gael yn Lloegr, ac y gallai hyn beri anfantais i bobl. |

# Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

**Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus...**
Os ceir gostyngiad yn y bwlch rhwng canrannau'r dynion a'r merched sy’n adrodd eu bod wedi siarad â meddyg teulu

**Ac**

Os ceir gostyngiad yn y bwlch rhwng canrannau'r dynion a'r merched sy’n adrodd eu bod wedi gofyn am gyngor fferyllydd

**Ac**

Os ceir gostyngiad yn y bwlch rhwng canrannau'r dynion a'r merched sy’n adrodd eu bod wedi ymweld â deintydd

**Ac**

Os ceir gostyngiad yn y bwlch rhwng canrannau'r dynion a'r merched sy’n adrodd eu bod wedi ymweld ag optegydd


**Ac**

Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi hyrwyddo mynediad at wasanaethau iechyd ymysg grwpiau gwarchodedig eraill a dargedir lle bo'r rheiny wedi'u nodi'n flaenoriaeth.

# Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

**Maes Gweithredu 1.3:**
Gwella'r gofal am bobl hŷn gan sicrhau y cânt eu trin ag urddas a pharch.

**SCA/001 N: Cyfanswm y preswylwyr awdurdod lleol (18 oed ac yn hŷn) lle cafwyd oedi wrth Drosglwyddo'u gofal yn ystod y flwyddyn am resymau gofal cymdeithasol Gogledd Cymru**




**Ein Hymchwil:**
Er nad yw data meintiol wedi'u datblygu'n dda ar hyn o bryd, mewn cyfres o astudiaethau ansoddol dangoswyd pryderon am driniaeth pobl hŷn sy'n derbyn gofal. Yr astudiaeth mwyaf arwyddocaol yw ***'Gofal Gydag Urddas?' Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru*** a luniwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ar gyfer awdurdodau lleol. Mae astudiaeth arall debyg ar y gweill ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar ofal cartref, a gallai gynnig argymhellion pellach ar gyfer gofal a gomisiynir/ddarperir gan awdurdodau lleol.

Er mwyn ymdrin â rhai o'r materion hyn, mae Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol wedi llunio canllawiau mewn perthynas â'r problemau a wynebir yn aml gan bobl hŷn LGBT wrth dderbyn gofal.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac awdurdodau lleol yn ymateb i argymhellion y Comisiynydd ar hyn o bryd, neu eisoes wedi gwneud hynny. Mae'r ymatebion hyn yn darparu gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol yn awdurdodau cyhoeddus amrywiol Gogledd Cymru.

**Datblygu Data:**
Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn un o'r problemau a amlygir yn adroddiad y Comisiynydd, a dangosir uchod yr wybodaeth am dueddiadau yn hyn o beth. Bydd y Partneriaid yn ymchwilio i ddichonadwyedd datblygu cyfres o ddangosyddion i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. Gall hyn gynnwys dangosydd sy'n ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo gofal.

## Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

| |
|---|
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Disgrifiodd cyfranogwyr ystod o broblemau a allai godi i unrhyw unigolyn hŷn sy'n derbyn gofal. Yn benodol, mynegwyd pryder ynglŷn ag ynysu a'r amrywiaeth yn y rhwydweithiau o gyfeillion a theuluoedd i gefnogi pobl hŷn LGBT yn destun pryder arbennig. Cyfeiriwyd at yr adroddiad a oedd ar ddod gan Stonewall fel ffynhonnell bosibl er mwyn cael gwybodaeth bellach. Roedd yr adroddiad hwnnw’n trafod materion penodol yn gysylltiedig â 'pherthynas agosaf' a chydsyniad meddygol, ymweld a gwybodaeth. Codwyd hefyd yr angen i gynllunio gwasanaethau gofal er mwyn bodloni gofynion diwylliannol y boblogaeth BME a oedd yn heneiddio ac, yn olaf, cydnabuwyd bod problemau cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl hŷn ag anableddau dysgu'n peri bod y grŵp yn cael profiadau gwael o ofal. |
| |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus...**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i wella profiadau pobl hŷn mewn lleoliadau gofal<br>**Ac**<br>Os gellir dangos tueddiadau cadarnhaol mewn dangosyddion a ddatblygir i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. |

# Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

**Maes Gweithredu 1.4:**
Gwella'r defnydd o wasanaethau gofal iechyd ataliol ymysg Sipsiwn-Teithwyr.

**Ein Hymchwil:**
Mae disgwyliad oes Sipsiwn-Teithwyr yn sylweddol is na'r boblogaeth gyffredinol (Niner, 2002:10). Dangosodd astudiaeth gan Lywodraeth yr Alban yn 2001 mai 55 oed oedd disgwyliad oes Sipsiwn-Teithwyr, o'i gymharu â disgwyliad oes yn y gymuned sefydlog o 80au hwyr i ferched ac 80au cynnar i ddynion. Mae lefelau marw-enedigaeth 17 o weithiau'n uwch ymysg y gymuned hon na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae marwolaethau babanod 12 gwaith yn uwch na'r cyfraddau cyfartalog (Power, 2004:41).
Dyma faterion eraill yn gysylltiedig â iechyd sy'n effeithio ar y boblogaeth o Sipsiwn-Teithwyr:

- Lefel isel yn manteisio ar ofal cyn ac ar ôl geni;
- Lefel isel yn manteisio ar ofal iechyd ataliol;
- Lefel isel yn manteisio ar brofion seitoleg ceg y groth;
- Lefel uchel o ysmygu ac o yfed alcohol;
- Lefel isel yn cofrestru gyda meddyg teulu;
- Lefel isel o ofal deintyddol; a
- Lefel isel yn manteisio ar wasanaethau gan gynnwys gofal sylfaenol, cynllunio teulu ac imiwneiddio.

Ceir rhywfaint o amharodrwydd ymysg dynion sy'n Sipsiwn-Teithwyr i geisio gofal a sylw meddygol. Fodd bynnag, mae merched yn well am geisio gofal meddygol gan fod lles eu teulu'n flaenoriaeth iddynt. Mae agwedd Sipsiwn-Teithwyr tuag at ofal iechyd i raddau helaeth yn dibynnu ar brofiadau unigolion a phrofiadau'r gymuned ehangach. Mae diffyg ymwybyddiaeth a sensitifrwydd ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol tuag at anghenion y gymuned yn ei gwneud hi'n anoddach fyth i'r gymuned gyrchu gwasanaethau, ac mae hyn yn arwain at amheuaeth a diffyg ymddiriedaeth.

**Datblygu Data:**
Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (AIGC) a'r Byrddau Iechyd Lleol yn ymrwymedig i ganfod mecanweithiau i gasglu data ar fynediad y gymuned Sipsiwn-Teithwyr at ofal iechyd. Byddant hefyd yn canfod data gofal iechyd a gesglir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr, ac yn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn berthnasol ac yn cael eu defnyddio i wella darpariaeth gofal iechyd.

## Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

| |
|---|
| Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn sicrhau y cynigir "Sipsi-Teithiwr" fel opsiwn ar ffurflenni cyfle cyfartal drwy'r holl wasanaethau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys ffurflenni derbyn i'r ysbyty ac arolygon blynyddol. Gwneir hyn fel bo modd gwella gwasanaethau gofal iechyd a chynnal gwerthusiad effeithiol a fydd yn nodi a gafwyd unrhyw gynnydd gyda'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr. |
| |
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Dywedodd cyfranogwyr nad oedd y buddsoddiad mewn gwaith ataliol gyda chymunedau o Sipsiwn a Theithwyr yn ddigonol ar y cyfan. |
| |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus...**<br>Os oes tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i hyrwyddo gwasanaethau iechyd ymysg y cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr<br>**Ac**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i nodi ac ymdrin ag unrhyw rwystrau i wasanaethau iechyd sy'n effeithio ar gymunedau o Sipsiwn a Theithwyr<br>**Ac**<br>Os gellir dangos tueddiadau cadarnhaol mewn dangosyddion a ddatblygir i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. |

# Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

| |
|---|
| **Maes Gweithredu 1.5:**<br>Caiff pobl drawsryweddol, lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n derbyn gofal eu trin ag urddas a pharch. |
| |
| **Ein Hymchwil:**<br>Yn nogfen 'Pa mor deg yw Cymru' cyfeiriwyd at y ffaith bod 1 o bob 7 o bobl drawsryweddol a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo'u bod wedi cael eu trin yn anffafriol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol oherwydd eu statws trawsryweddol. Awgrymai adolygiad tair blynedd 'How Fair is Britain?' hefyd fod pobl hoyw a lesbiaidd yn fwy tebygol o ddweud mai ond yn achlysurol neu'n anaml y cawsant eu trin â pharch yn y gwasanaethau iechyd. Canfu Williams a Robinson (2007) fod pobl LGBT (o oedrannau amrywiol) yn fwy tebygol o fod yn anfodlon â gwasanaethau iechyd a bod rhai ohonynt yn teimlo bod eu meddyg teulu, eu hysbyty lleol, neu'r gwasanaeth iechyd yn gyffredinol yn gwahaniaethu yn eu herbyn.[iv] Roedd ymatebwyr sy'n byw yng ngogledd Cymru'n fwy tebygol o adrodd am wahaniaethu na'r rhai sy'n byw yn ne, canolbarth a gorllewin Cymru. Cynhaliodd Cook et al, 2007, ymchwil i brofiadau pobl LGBT yng ngogledd a chanolbarth Cymru, a ganolbwyntiai'n arbennig ar effaith datgelu cyfeiriadedd rhywiol ar agweddau staff. Casglwyd bod angen cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.[v] |
| |
| **Datblygu Data**<br>Bydd y Partneriaid yn ymchwilio i ddichonadwyedd datblygu cyfres o ddangosyddion i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. |
| |
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Awgrymwyd bod angen sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn fwy ymwybodol o'r llwybr gofal enghreifftiol ar gyfer pobl drawsryweddol. Gellir colli'r potensial am arfer da a phrofiadau cadarnhaol oherwydd diffyg gwybodaeth Amlygwyd y graddau y manteisir ar sgrinio fel mater neilltuol i bobl drawsryweddol, gan nad yw'r ddarpariaeth sgrinio briodol yn targedu pobl drawsryweddol yn llwyddiannus. Dywedodd cyfranogwyr nad oedd y buddsoddiad mewn gwaith ataliol gyda'r gymuned drawsryweddol yn ddigonol ar y cyfan. |
| |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus ...**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i wella profiadau pobl drawsryweddol a lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn lleoliadau gofal<br>**Ac**<br>Os gellir dangos tueddiadau cadarnhaol mewn dangosyddion a ddatblygir i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. |

# Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd

| |
|---|
| **Maes Gweithredu 1.6:**<br>Cael dealltwriaeth well o anghenion pobl â salwch meddwl ac anableddau dysgu. |
| |
| **Ein Hymchwil:**<br>Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddodd yr Ombwdsmon Iechyd adroddiad ynglŷn ag achosion o esgeuluso chwech o bobl ag anabledd dysgu fu farw yng ngofal y GIG. O ganlyniad i hyn, mae grwpiau, gan gynnwys Mencap, wedi ymgyrchu i wella gwasanaethau iechyd a gofal i bobl ag anableddau dysgu.<br><br>Mae'r adroddiad *Mental Health, Resilience And Inequalities* gan Sefydliad Iechyd y Byd/Ewrop wedi dangos bod salwch meddwl unigolion yn ffactor sylweddol sy'n achosi problemau cymdeithasol ac iechyd ehangach, gan gynnwys:<br>• Lefelau isel o gyflawniad mewn addysg ac o gynhyrchiant yn y gwaith<br>• Lefelau uwch o glefydau corfforol ac o farwolaeth<br>• Trais, tor-perthynas a lefelau gwael o gydlyniant cymunedol<br><br>Yn ychwanegol at hyn, mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi dadlau y dylid peri bod mynediad at wasanaethau'n haws ar draws yr ystod oedran i bawb a chanddynt broblemau iechyd meddwl. Canfuasent mai'r grwpiau a oedd yn cael eu hanwybyddu fwyaf oedd y rhai a oedd yn trosglwyddo o wasanaethau'r glasoed i wasanaethau oedolion, pobl hŷn, carcharorion, pobl ag anableddau dysgu, a rhai a chanddynt broblemau'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. |
| |
| **Datblygu Data:**<br>Bydd y Partneriaid yn ymchwilio i ddichonadwyedd datblygu cyfres o ddangosyddion i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y gallwn wneud y defnydd gorau o wybodaeth am fodlonrwydd ac adborth defnyddwyr gwasanaeth. |
| |
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Dywedwyd bod dealltwriaeth o'r model cymdeithasol o anabledd, gan gynnwys yn y lleoliad iechyd, yn hanfodol er mwyn gwella mynediad. Cafwyd awgrymiadau penodol i'r staff dderbyn hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl. Dywedodd cyfranogwyr nad oedd y buddsoddiad mewn gwaith ataliol mewn perthynas â iechyd meddwl yn ddigonol ar y cyfan.<br><br>Awgrymodd cynrychiolwyr o grwpiau eiriol nad oedd y cyfathrebu rhwng darparwyr gofal a phobl ag anableddau dysgu'n llwyddiannus bob tro, ac y gallai hyn arwain at ganlyniadau difrifol os na chaiff anghenion defnyddwyr gwasanaeth eu deall. |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus ...**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i ddeall anghenion pobl â |

| |
|---|
| salwch meddwl a phobl ag anableddau dysgu yn well<br>**Ac**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i nodi ac ymdrin ag unrhyw ffactorau sy'n rhwystro mynediad i wasanaethau iechyd sy'n effeithio ar bobl â salwch meddwl neu bobl ag anableddau dysgu. |


# Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn gwneud y gorau o botensial yr unigolyn

**Maes Gweithredu 2.1:**
Caiff y bwlch rhwng cyrhaeddiad gwahanol grwpiau mewn addysg ei leihau.


**Ein Hymchwil:**
Dengys ymchwil genedlaethol anghydraddoldeb rhwng lefelau cyrhaeddiad y rhywiau, grwpiau ethnig, a rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Bydd disgyblion sy'n fechgyn, yn ddu, ac o dras Bangladeshaidd a Phacistanaidd a phlant anabl oll yn perfformio'n wael ar gyfartaledd o gymharu â grwpiau eraill.[vi]

Mae ffigurau cyhoeddedig ar gyrhaeddiad yn ôl rhyw ar gael ar gyfer Cymru, Gogledd Cymru ac ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r rhain yn dangos bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched.

**Siart 3: Y ganran a gyrhaeddodd lefel 2 mewn pynciau cradidd (Gogledd Cymru**




**Siart 4: Sgôr Pwyntiau Ehangach Cyfaralog (Gogledd Cymru)**




**Datblygu Data:**
Bydd awdurdodau lleol yn casglu data ar ryw, ethnigrwydd, a statws anabledd disgyblion a lefelau cyrhaeddiad. Mae'r data'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd er mwyn canfod materion a thueddiadau yng Ngogledd Cymru ac ym mhob un o'r ardaloedd awdurdod lleol. Bydd y gwaith hwn yn darparu gwybodaeth bellach ynglŷn ag ymhle y ceir anghydraddoldeb yng Ngogledd Cymru ac yn ei ardaloedd awdurdod lleol cyfansoddol.

**Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**
Nid oedd adborth gan y cynrychiolwyr yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad mewn addysg. Cydnabuwyd y bwlch rhwng y rhywiau o ran cyrhaeddiad mewn addysg. Serch hynny, teimlai rhai o'r cyfranwyr nad oedd y bwlch a nodwyd ar raddfa genedlaethol rhwng cyrhaeddiad bechgyn BME neilltuol mewn addysg ac eraill yn fater o bwys yng ngogledd Cymru.


## Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn gwneud y gorau o botensial yr unigolyn

| |
|---|
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus ...**<br>Os ceir gostyngiad yn y bwlch rhwng canran y bechgyn a'r merched a gyrhaeddodd Lefel 2 yn y pynciau craidd<br>**Ac**<br>Os ceir gostyngiad yn y bwlch rhwng sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog y bechgyn a'r merched<br>**Ac**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i nodi ac ymdrin ag unrhyw anghydraddoldeb arall yn lefelau cyrhaeddiad grwpiau neilltuol a warchodir. |

# Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn gwneud y gorau o botensial yr unigolyn

**Maes Gweithredu 2.2:**
Lleihau bwlio oherwydd hunaniaeth mewn ysgolion.

**Ein Hymchwil:**
Mae tystiolaeth o astudiaethau cenedlaethol yn awgrymu bod bwlio'n broblem sylweddol i ystod o blant mewn ysgolion ledled Cymru.  Mae Arolwg Cymru Gyfan o Fwlio mewn Ysgolion (LICC 2009) yn cyfeirio at achosion sylweddol o fwlio'n seiliedig ar hil, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol.




**Canfu'r arolwg hefyd:**

'Roedd gwahaniaeth rhwng y mathau o fwlio a adroddwyd gan fechgyn a merched yn y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn yn yr arolwg. Roedd merched yn yr holl grwpiau blwyddyn yn fwy tebygol na'r bechgyn o adrodd am ffurfiau anuniongyrchol ar fwlio, er enghraifft bod rhywun yn dweud celwyddau neu'n adrodd straeon amdanynt, ac roedd merched ym mlynyddoedd 6, 7 a 10 yn llawer mwy tebygol o gael eu bwlio drwy wefannau cymdeithasol.  Roedd bechgyn ym mlynyddoedd 4 a 7 yn fwy tebygol o adrodd am ffurfiau corfforol ar fwlio, ac roedd bechgyn ym mlynyddoedd 6, 7 a 10 yn fwy tebygol o adrodd am fwlio homoffobig.'[vii]

Dangosai adroddiad '*How Fair is Britain?*' hefyd fod rhai grwpiau penodol yn debygol o brofi lefelau uchel o fwlio.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- Myfyrwyr anabl,
- Myfyrwyr lesbiaidd, hoyw a thrawsryweddol, a
- Rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is[viii]

Mewn astudiaethau eraill, gan gynnwys Williams a Robinson (2007), canfuwyd lefelau uchel o fwlio homoffobig mewn Addysg yng Nghymru. Roedd yr achosion a gofnodwyd yn cynnwys bwlio'n seiliedig ar rywioldeb rhieni a gofalwyr yn ogystal â rhywioldeb gwirioneddol neu dybiedig y plentyn.  Hefyd, mewn arolwg gan Achub y Plant Cymru o blant Sipsiwn-Teithwyr, a gynhaliwyd yn rhan o *adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003),* canfuwyd lefel uchel iawn o ragfarn a bwlio parhaus.

## Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn gwneud y gorau o botensial yr unigolyn

| |
|---|
| **Datblygu Data:**<br>Cynhelir trafodaethau ag awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn canfod a yw'n ddichonadwy i fonitro achosion o fwlio yn ôl nodweddion gwarchodedig ar raddfa leol. |
| |
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Prif ffocws yr holl adborth ar faterion addysg oedd atal bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion (yr oedd yn well gan rai pobl ei alw'n aflonyddwch a throseddu casineb mewn ysgolion). Teimlwyd bod angen i raglenni gwrth-fwlio ystyried y stigma'n gysylltiedig â iechyd meddwl yn ogystal â'r grwpiau gwarchodedig a amlygir uchod. |
| |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus...**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i leihau bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion ac i gefnogi dioddefwyr<br>**Ac**<br>Os gellir dangos tueddiadau cadarnhaol mewn dangosyddion a ddatblygir i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. |

# Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog


**Maes Gweithredu 3.1:**
Anghydraddoldeb mewn prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a hyrwyddo yn cael eu canfod a'u datrys.

**Ein Hymchwil:**
Yn ôl ffigurau Cymru gyfan, ceir lefelau llawer is o gyflogaeth ymysg pobl anabl na phobl nad ydynt yn anabl, ac ymysg pobl hŷn o gymharu â'r grŵp oedran gweithio safonol. Dengys gwybodaeth leol fod hyn hefyd yn wir yng Ngogledd Cymru ac yn ei ardaloedd awdurdod lleol cyfansoddol.


Fodd bynnag, gan fod y sampl yn fach ni ellir cynnal cymhariaeth ystyrlon rhwng y naill flwyddyn a'r llall o'r data rhanbarthol (ar gyfer pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl) a'r data lleol (ar gyfer pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl ac ar gyfer Pobl Hŷn).[ix]

Gan hynny, rydym wedi dewis canolbwyntio ar y data sydd gennym ar raddfa'r sefydliad er mwyn darparu dangosyddion defnyddiol ychwanegol. (Dyma'r lle y gallwn achosi'r effaith mwyaf uniongyrchol p'run bynnag)

**Siart 3 Cyfradd Gyflogi Awdurdodau Gogledd Cymru (Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2009)**




**Siart 4 Y Gyfradd Gyflogi fesul Oedran (Gogledd Cymru)**




**Datblygu Data:**
Bydd y dyletswyddau penodol newydd yn golygu y bydd awdurdodau cyhoeddus yn casglu gwybodaeth yn flynyddol am ystod ehangach o faterion cyflogaeth, gan gynnwys hyfforddiant, recriwtio a chyflogaeth ar gyfer eu sefydliad eu hunain. Bydd hyn yn fodd i ddarparu gwybodaeth ystyrlon am dueddiadau yng nghyswllt gwahanol grwpiau gwarchodedig a gyflogir gan y sefydliadau dan sylw, neu sy'n ymgeisio i'r sefydliadau hynny.

## Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog

**Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**
Ymysg yr awgrymiadau gan y cyfranogwyr yr oedd datblygu ffurflen safonol ar gyfer monitro cyflogaeth a fyddai'n fodd i gael data gwell a dealltwriaeth well o dueddiadau. Codwyd hefyd yr angen i wella ymwybyddiaeth well ymysg staff, a hyfforddiant ar eu cyfer, yn enwedig yr aelodau hynny o staff sy'n ymwneud â recriwtio. Codwyd y syniad am 'bolisïau iechyd meddwl a lles cadarnhaol' ar gyfer cyflogeion fel ffordd o wneud cyflogwyr yn fwy deniadol i gyflogeion anabl a chynyddu'r gyfradd cadw staff. Cododd rhai cyfranogwyr bryderon am y gofynion iaith ar gyfer rhai swyddi penodol, ac am nad oedd unrhyw rolau lle'r oedd disgwyl rhugled yn Iaith Arwyddion Prydain. Ar y cyfan, roedd y rhwydweithiau cefnogi a fodolai ar gyfer staff a chanddynt nodweddion gwarchodedig gwahanol yn cael eu hannog a'u croesawu. Croesawyd oriau hyblyg hefyd, ac ystyriwyd ei bod hi'n bwysig ymestyn hynny er mwyn caniatáu i bobl hŷn a phobl anabl a phobl a chanddynt gyfrifoldebau gofalu i gael cydbwysedd bywyd a gwaith.

Codwyd rhai pryderon penodol ynghylch addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr dall, byddar ac ymgeiswyr eraill anabl mewn cyfweliadau swydd. Cafwyd galw am fwy o 'swyddi go iawn' i bobl ag anableddau dysgu yn hytrach na lleoliadau cyflogaeth. Serch hynny, cydnabuwyd ei bod hi'n anodd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yr hawl am fudd-daliadau a gwaith cyflogedig.

**Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus...**
Os bydd y gyfradd gyflogaeth ymysg rhai 50 - 64 oed yn cynyddu

**Ac**

Os bydd y gyfradd gyflogaeth ymysg rhai 65 oed a hŷn yn cynyddu

**Ac**

Os bydd % y cyflogeion sy'n 50-64 oed (yr holl bartneriaid sy'n cymryd rhan) yn cynyddu

**Ac**

Os bydd % y cyflogeion sy'n 65 oed a hŷn (yr holl bartneriaid sy'n cymryd rhan) yn cynyddu

**Ac**

Os bydd y gyfradd gyflogaeth ymysg pobl anabl yn cynyddu

**Ac**

Os bydd % y cyflogeion sy'n bobl anabl (yr holl bartneriaid sy'n cymryd rhan) yn cynyddu

**Ac**

Os nodir unrhyw anghydraddoldebau eraill ym mhroses gyflogaeth sefydliadau'r sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru mewn trefniadau newydd ar gyfer monitro cyflogaeth

**Ac**

Os gall partneriaid ddangos eu bod wedi cymryd camau i oresgyn unrhyw anghydraddoldebau neu rwystrau a nodwyd.


# Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog

**Maes Gweithredu 3.2:**
Nodi ac ymdrin ag unrhyw fylchau rhwng cyflogau gwahanol nodweddion gwarchodedig.


**Ein Hymchwil:**
Dengys ymchwil genedlaethol anghydraddoldeb rhwng lefelau cyflog y rhywiau, grwpiau ethnig, a rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl.[x] Ni cheir gwybodaeth genedlaethol, leol a rhanbarthol ond mewn perthynas â'r bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau. [xi] Mae'n nodi bod bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau hefyd yn bresennol yng Ngogledd Cymru ac yn ei ardaloedd awdurdod lleol cyfansoddol. Fodd bynnag, gan fod y sampl yn fach, ni ellir cynnal cymhariaeth ystyrlon o ddata rhanbarthol a lleol o'r naill flwyddyn i'r llall.

Gan hynny, rydym wedi dewis canolbwyntio ar y data sydd gennym ar raddfa'r sefydliad er mwyn darparu dangosyddion defnyddiol ychwanegol. (Dyma'r lle y gallwn achosi'r effaith mwyaf uniongyrchol p'run bynnag)

**Siart 1: Cymedr Cyflog Fesul Awr £oedd (Cymru)**




**Siart 3: Cymedr Enillion Fesul Awr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru 2010**




## Datblygu Data
**Ar Raddfa'r Sefydliad**
Bydd y dyletswyddau penodol newydd yn golygu y bydd awdurdodau cyhoeddus yn casglu gwybodaeth yn flynyddol am gyflogau pob nodwedd warchodedig a gaiff ei chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i sylwi ar y gwahaniaeth rhwng cyflogau ac yn darparu gwybodaeth ystyrlon am dueddiadau i'r sefydliadau dan sylw.

## Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:
Canolbwyntiai awgrymiadau o'r digwyddiad ymgysylltu ar yr angen i hyrwyddo oriau hyblyg yn yr holl ystod o swyddi, gan gynnwys swyddi uwch. Cododd grwpiau hefyd bryder ynglŷn â'r ffaith mai ychydig o gymorth oedd ar gael yn benodol ar gyfer merched er mwyn meithrin sgiliau entrepreneuraidd a sefydlu busnesau.

# Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog


**Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus ...**
Os ceir gostyngiad yn y gwahaniaeth canrannol rhwng cymedr y cyflog crynswth fesul awr a gaiff gwrywod a benywod (amser llawn) (Gogledd Cymru).
**Ac**
Os ceir gostyngiad yn y gwahaniaeth canrannol rhwng cymedr y cyflog crynswth fesul awr a gaiff gwrywod a benywod (rhan amser) (Gogledd Cymru).
**Ac**
Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng cyflogau grwpiau gwarchodedig yn eu sefydliad eu hunain

# Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol

**Maes Gweithredu 4.1:**
Bod cyfraddau adrodd am aflonyddwch a throseddau casineb yn cynyddu, a bod camau'n cael eu cymryd i leihau aflonyddwch a throseddau casineb.

**Ein Hymchwil:**
Dengys ffigurau Cymru gyfan fod bwlio a throseddau casineb homoffobig, trawsffobig, yn gysylltiedig ag anabledd ac a gaiff eu cymell gan grefydd neu hil yn broblem sylweddol ledled Cymru.[xii] Mae ymchwil genedlaethol yn awgrymu bod tan-adrodd yn dal i fod yn broblem. Dengys ffigurau Heddlu Gogledd Cymru 395 o ddigwyddiadau casineb a 384 o droseddau casineb yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2011. Troseddau casineb wedi'u cymell gan hil oedd cyfran fwyaf y cyfanswm, sef 289, yna 49 o droseddau homoffobig, 24 yn ymwneud â'r Gymraeg / Saesneg, 14 yn ymwneud ag anabledd, 7 yn ymwneud â chrefydd, 6 yn ymwneud â thrawsffobia a 5 yn ymwneud â Sipsiwn/Teithwyr.

| Categori | Mis Derb. | YTD Derb. | YTD Der. diwethaf | % Newid | % Sanc Det Mis | % YTD Det Sanc | % YTD Sand Det diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhelliad Hiliol | 28 | 289 | 332 | -13.0% | 50.0% | 55.0% | 62.0% |
| Iaith Gymraeg/ Saesneg | 0 | 24 | 21 | 14.3% | - | 70.8% | 85.7% |
| Homoffobig | 5 | 49 | 63 | -22.2% | 60.0% | 59.2% | 52.4% |
| Crefyddol | 2 | 7 | 1 | 600.0% | - | 42.9% | 100.0% |
| Anabledd | 0 | 14 | 13 | 7.7% | - | 35.7% | 76.9% |
| Rhywedd | 0 | 0 | 2 | -100.0% | - | - | - |
| Sipsiwn/ Teithwyr | 0 | 5 | 2 | 150.0% | - | 60.0% | 50.0% |
| Trawsffobig | 0 | 6 | 5 | 20.0% | - | 50.0% | 20.0% |
| Eraill | 0 | 1 | 2 | -50.0% | - | 100.0% | 50.0% |
| **Cyfanswm yr achosion** | **35** | **395** | **441** | **-10.4%** | **48.6%** | **55.7%** | **61.5%** |
| **Cyfanswm y Troseddau Casineb** | **35** | **384** | **434** | **-11.5%** | **48.6%** | **56.0%** | **61.4%** |




| | Hyd 2011/12 Y fl. hyd yma - |
|---|---|
| **Rhai sy'n dioddef Troseddau Casineb fwy nac unwaith** | 6 |

**Datblygu Data**
Byddwn yn casglu gwybodaeth am y nifer sy'n dioddef troseddau casineb fwy nag unwaith, ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i ddynodi i ba raddau y mae ein gwaith ataliol yn llwyddo.

Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth am droseddau casineb a digwyddiadau casineb oddi mewn i sefydliadau sector cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru, neu a adroddir wrth y sefydliadau hynny, yn anghyson, ac angen ei datblygu.

## Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol

**Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**
Cafwyd trafodaeth hir ymysg y cyfranogwyr ynghylch adrodd am droseddau casineb. Tybiwyd bod y rhesymau dros y lefel isel o adrodd am droseddau o'r fath o natur gymhleth ac amrywiol, ond mai un o'r rhesymau oedd diffyg gwybodaeth ynghylch sut ac ymhle i adrodd. Roedd hyder yn broblem sylfaenol. Disgrifiodd rhai grwpiau'r ofn o adrodd yn seiliedig ar bryderon y byddai hynny'n achosi i'r dioddefwr gael ei adnabod neu ei 'ddatgelu' ac y gallai hynny arwain at fwy o drafferth yn y dyfodol. Roedd pryderon cyffredinol yn cynnwys ofn na fyddai digwyddiadau'n cael eu cymryd o ddifrif; diffyg hyder yn y llysoedd; a thriniaeth wael yn y gorffennol gan staff a oedd yn ymwneud â chofnodi ac ymdrin â digwyddiadau. Tybiwyd hefyd fod rhwystrau ieithyddol hefyd yn cyfrannu tuag at y tan-adrodd, yn enwedig yn gysylltiedig â throseddau casineb oherwydd hil, ac ymysg dioddefwyr byddar.

Ystyriwyd bod mannau adrodd diogel yn flaenoriaeth, a ffafriwyd darpariaeth amrywiol. Roedd pobl hefyd yn teimlo bod diffyg eglurdeb ynglŷn â'r camau a fyddai'n cael eu cymryd o ganlyniad i'r weithred o adrodd, a sut brofiad fyddai'r weithred honno. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys darparu mwy o wybodaeth am ddigwyddiadau blaenorol, gan gynnwys canlyniadau llwyddiannus a gafwyd.

**Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus ...**
Os ceir cynnydd yn nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt: troseddau a gymhellir gan hil

**Ac**

Os ceir cynnydd yn nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt: troseddau'n gysylltiedig â'r Gymraeg/Saesneg

**Ac**

Os ceir cynnydd yn nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt: troseddau homoffobig

**Ac**

Os ceir cynnydd yn nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt: troseddau a gymhellir gan grefydd

**Ac**

Os ceir cynnydd yn nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt: troseddau'n gysylltiedig ag anabledd

**Ac**

Os ceir cynnydd yn nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt: troseddau'n gysylltiedig â'r rhywiau

**Ac**

Os ceir cynnydd yn nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt: troseddau'n gysylltiedig â Sipsiwn/Teithwyr

## Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol

**Ac**

Os ceir cynnydd yn nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt: troseddau trawsffobig

**Ac**

Os oes tystiolaeth i ddangos bod partneriaid wedi cyflawni gwaith ataliol yn gysylltiedig ag aflonyddwch a throseddau casineb.

# Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol

**Maes Gweithredu 4.2:**
Bod cyfraddau adrodd am gam-drin domestig yn cynyddu, a bod camau'n cael eu cymryd i leihau cam-drin domestig.

| Digwyddiadau | 2009 | 2010 |
|---|---|---|
| Troseddu | 4003 | 4157 |
| Heb fod yn troseddu | 7572 | 7683 |
| **Cyfanswm** | **11575** | **11840** |

| | Hyd 2011/12 Y fl. hyd yma |
|---|---|
| **Rhai sy'n Dioddef Troseddu Domestig Fwy nag Unwaith** | 197 |

**Ein Hymchwil:**
Ceir corff mawr o dystiolaeth sy'n amlygu problem trais domestig, a'r effaith anghymesur a gaiff ar fywydau merched.

**Yng Nghymru**

Rhwng 2007 a 2008, rhoddodd grwpiau Cymorth i Ferched lety i 1,505 o ferched a 1,338 o blant mewn llochesi - trowyd 2,700 o ferched ymaith gan nad oedd digon o le ar gael iddynt.

- Cafodd llinell gymorth cam-drin domestig Cymru gyfan 13,982 o alwadau rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008.
- Yng Ngogledd Cymru, cafwyd mwy na 30,000 o ymosodiadau neu fygythiadau trais domestig yn ystod y tair blynedd diwethaf - un fesul 25 o bobl sy'n byw yn y rhanbarth.

Mae 19% o boblogaeth Cymru o'r farn ei bod hi'n well ymdrin â thrais domestig fel mater preifat.

**Datblygu Data**
Byddwn yn casglu gwybodaeth am y nifer sy'n dioddef cam-drin domestig fwy nag unwaith, ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i ddynodi i ba raddau y mae ein gwaith ataliol yn llwyddo.

Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth am gam-drin domestig oddi mewn i sefydliadau sector cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru, neu a adroddir wrth y sefydliadau hynny, yn anghyson, ac angen ei datblygu.

# Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol

| |
|---|
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Bu'r sylwadau a wnaed yn fodd i gynnig mewnwelediad amrywiol i ddioddefwyr a'u hanghenion yn hytrach na chanolbwyntio ar gamau penodol y mae angen eu cymryd. Canolbwyntiai'r trafodaethau ar hyfforddi staff er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth a gwella'u hagwedd. Trafodwyd hefyd yr angen i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael ymysg dioddefwyr a dioddefwyr posibl, yn ogystal â'r angen am fannau adrodd mwy diogel. Pwysleisiwyd yr angen am lochesi diogel i ddioddefwyr, a mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r angen i sicrhau bod darpariaeth yn addas ar gyfer gwahanol grwpiau gwarchodedig. Rhoddwyd sylw hefyd i'r broses adrodd, ac amlygwyd pryderon ynglŷn â'r angen i sicrhau bod systemau cefnogi'n diogelu cyfrinachedd/hunaniaeth, a dywedwyd y dylai 'gofodau preifat' fod ar gael i drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol a sensitif lle bynnag y bydd adrodd yn bosibl. |
| |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus ...**<br>Os bydd nifer yr adroddiadau am drais domestig yn cynyddu<br>Ac<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cyflawni gwaith ataliol yn gysylltiedig â thrais domestig. |

# Lleihau anghydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a llais

| |
|---|
| **Maes Gweithredu 5.1:**<br>Bod cyrff penderfynu'n datblygu i gynrychioli'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn well. |
| |
| **Ein Hymchwil:**<br>**Lefel y Boblogaeth**<br>Dengys ffigurau Cymru gyfan fod ystod o grwpiau gwarchodedig yn cael eu tangynrychioli. Dyma rai enghreifftiau: Aelodau Seneddol yng Nghymru, lle mae 82% ohonynt yn wrywod ac 18% ohonynt yn fenywod, neu Arweinwyr Cyngor lle mae 95% ohonynt yn wrywod a 5% yn fenywod. [xiii]<br><br>Prin iawn yw'r wybodaeth am fathau eraill o gynrychiolaeth: gwyddom fod mwy na hanner cynghorwyr Cymru dros 55 oed yn 2004; fod gan 17% o gynghorwyr Cymru salwch cyfyngus hirdymor neu anabledd (o'i gymharu â 23% yn y boblogaeth gyfan), a bod llai na 1% o gynghorwyr o gefndir lleiafrifol ethnig, o gymharu ag oddeutu 2% o'r boblogaeth gyfan.[xiv] |
| |
| **Datblygu Data**<br>Pan fydd gwybodaeth newydd o'r cyfrifiad ar gael, bydd modd i bartneriaid ddangos beth fyddai natur sampl cynrychioliadol o'u poblogaeth hwy.<br><br>Yn ychwanegol at hyn, bydd partneriaid yn llunio rhestr o gyrff penderfynu allweddol yng Ngogledd Cymru ac yn casglu'r niferoedd ar gyfer pob nodwedd warchodedig ar gyfer y grwpiau hyn. |
| |
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Canolbwyntiai llawer o'r cyfraniadau ar yr angen i annog pobl o grwpiau a gaiff eu tangynrychioli i sefyll ar gyfer cyrff penderfynu neu ymgeisio iddynt. Teimlwyd bod angen gwneud gwaith er mwyn chwalu mythau ar y naill ochr a'r llall. Yn gyntaf, chwalu'r mythau ymysg y boblogaeth gyffredinol ac ymysg aelodau presennol cyrff penderfynu ynghylch pobl o wahanol grwpiau gwarchodedig. Yn ail, chwalu'r mythau ynghylch cyrff penderfynu a allai fodoli ymysg pobl o a chanddynt nodweddion gwarchodedig neilltuol.<br><br>Roedd grwpiau cynrychioliadol a gynhelid ochr yn ochr â chyrff penderfynu, y byddai'r cyrff yn ymgynghori â hwy, yn cael eu hystyried yn enghraifft gadarnhaol o arloesi, ond nid oeddynt yn disodli'r angen am gynrychiolaeth well ar y cyrff penderfynu eu hunain.<br><br>Roedd rhwystrau i gyfranogiad yn cynnwys natur wasgaredig cymunedau BME ledled Gogledd Cymru, diffyg mynediad ffisegol i gyfranogiad a brofir gan bobl anabl, lefel isel o hyder mewn rhai grwpiau, ymagweddau traddodiadol tuag at addysg a magwraeth a |

| |
|---|
| olygai nad oedd rhai grwpiau'n cael eu hannog i gyfranogi, diffyg gofal plant a threfniadau sy'n gyfeillgar i deuluoedd er mwyn cyfranogi, a rhwystrau ariannol i gyfranogi ymysg y boblogaeth sy'n gweithio. |
| |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus...**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan mewn cyrff penderfynu ymysg grwpiau gwarchodedig a dangynrychiolir ar y cyrff hynny ar hyn o bryd<br>**Ac**<br>Os gellir dangos tueddiadau cadarnhaol mewn dangosyddion a ddatblygir i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. |

# Lleihau anghydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a llais

| |
|---|
| **Maes Gweithredu 5.2:**<br>Mae ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus ac unigolion sy'n cynrychioli pobl leol o bob grŵp wedi'i ddiogelu. |
| |
| **Ein Hymchwil:**<br>Mae ystod o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth 3ydd Sector ynghlwm mewn amryw o ffyrdd wrth ddatblygu polisïau a chynlluniau sector cyhoeddus. Cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu penodol i ddatblygu amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae angen agwedd mwy cydlynol a chyson i alluogi cysylltiad effeithiol a rhoi grym i bobl sydd â nodweddion wedi'u diogelu.<br><br>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn rhoi eglurder ynglŷn ag ymglymiad ac ymgynghoriad gyda'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a rhwydweithiau a grwpiau lleol. Mae angen adolygu'r mecanweithiau hyn, ar lefel Gogledd Cymru, i ymestyn yr ystod gwaith, gwella a datblygu perthnasau ac osgoi dyblygu. |
| |
| **Datblygu Data:**<br>Fel rhan o ddatblygiad y Maes Gweithredu hwn, bydd angen i bartneriaid gasglu gwybodaeth ynglŷn â mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghoriadau parhaus. |
| |
| **Gwybodaeth o waith Ymgysylltu:**<br>Mae galw cryf i'r sector cyhoeddus gymryd agwedd mwy cydlynol i sicrhau ei fod yn cynnwys y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a rhwydweithiau a grwpiau lleol wrth ddatblygu polisïau, asesu effaith ac agweddau eraill o gynllunio a darparu gwasanaethau.<br><br>Mae awgrymiadau yn cynnwys datblygu clymblaid rhanbarthol i gynrychioli lles unigolion anabl a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer gwaith ymgysylltu awdurdod cyhoeddus. Awgrymwyd hefyd y byddai strwythur rhanbarthol eang, sy'n gallu gwneud y swyddogaeth hon ar gyfer yr ystod lawn o nodweddion wedi'u diogelu yn ddymunol. |

# Lleihau anghydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a llais

| |
|---|
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus…**<br>Os oes tystiolaeth bod gan bartneriaid lefel ymgysylltiad ac ymglymiad uwch ar gyfer nodweddion wedi'u diogelu ac y gellir dangos cydymffurfiaeth gyda gofynion dyletswyddau sector cyhoeddus.<br>**AC**<br>Os oes tystiolaeth o well bodlonrwydd gyda mecanweithiau ymgysylltu<br>**AC**<br>Os yw camau wedi'u cymryd i asesu dichonolrwydd strwythurau ymgysylltu a chyfranogi rhanbarthol, a chynigion wedi'u paratoi. |

# Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

| **Maes Gweithredu 6.1:**<br>Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer |
|---|
| |
| **Ein Hymchwil:**<br>Ym mhoblogaeth Gogledd Cymru, mae nifer cymharol uchel o bobl yn datgan eu bod yn anabl, neu fod ganddynt salwch cyfyngus hirdymor. Ceir llawer iawn o bobl hŷn yng ngogledd Cymru hefyd, fel canran o'r boblogaeth gyffredinol.<br><br>Dros y blynyddoedd nesaf, disgwylir y bydd hyn yn cynyddu. [xv] Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o golli eu clyw, o golli eu golwg, neu o brofi problemau symudedd, a all effeithio ar fynediad os na chymerir camau i ddarparu ar gyfer yr amgylchiadau hyn. Er enghraifft, ceir 480,000 o bobl fyddar a thrwm eu clyw yng Nghymru, ac mae 70% o bobl dros 70 oed wedi colli eu clyw. [xvi]<br><br>Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yw iaith gyntaf neu ddewis iaith oddeutu 3,000 o bobl yng Nghymru. Amcangyfrifir bod [aros am y ffigwr] o bobl yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yng Ngogledd Cymru. Dengys ymchwil gan y GIG na ddarparwyd dehonglydd i 70% o ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain a dderbyniwyd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i'w helpu i gyfathrebu. Gwyddom hefyd fod darpariaeth dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain i gynorthwyo pobl i ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor hefyd yn amrywio ar draws gogledd Cymru.<br><br>Gall iaith hefyd fod yn rhwystr i rai sy'n siarad iaith arall yn hytrach na Chymraeg neu Saesneg. Mae ein gwybodaeth am anghenion iaith, a'n dealltwriaeth ohonynt, wedi datblygu i raddau amrywiol ar draws y gwahanol bartneriaid ac ar draws y rhanbarth. Mae angen gwneud gwaith pellach i greu darlun mwy cynhwysfawr.<br><br>Mae ystod o waith ymchwil hefyd yn amlygu problemau i bobl ddall a phobl rhannol ddall ledled Cymru/ Mae hyn yn cynnwys anawsterau sy'n codi pan gyflwynir gwybodaeth ar ffurf ysgrifenedig, fel llythyrau apwyntiad a hysbysiadau a mathau eraill o ohebiaeth. Awgryma'r dystiolaeth ddiffyg mewn hyfforddiant staff mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o nam ar y golwg.[xvii]<br><br>Yn ychwanegol at dystiolaeth ynglŷn â diffyg mynediad i bobl anabl, mae ystod o astudiaethau wedi amlygu diffyg ymdrechion gweithredol ar ran awdurdodau cyhoeddus i estyn at gymunedau LGBT a BME ac i gyfathrebu'n uniongyrchol ac yn benodol â'r cymunedau hynny. |

## Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

| |
|---|
| **Datblygu Data**<br>Bydd y Partneriaid yn ymchwilio i ddichonadwyedd datblygu cyfres o ddangosyddion i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. |
| |
| **Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**<br>Mae llawer o'r partneriaid yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru'n adrodd bod mynediad yn broblem sylweddol a amlygir droeon wrth ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau.<br><br>Canolbwyntiai'r rhan fwyaf o'r drafodaeth yn y digwyddiad ymgysylltu ar fynediad at ofal iechyd, sydd wedi cael ei ddatblygu mewn amcan ar wahân uchod. Roedd eithriadau i hyn yn cynnwys cefnogaeth i gymunedau BME a mudol gael gwybod am wasanaethau a'u defnyddio. Roedd cefnogi cyrsiau Saesneg ail iaith a chyrsiau Cymraeg yn cael ei ystyried yn gam pwysig Nodwyd ei bod hi'n haws i bobl sy'n gallu cyfathrebu'n dda yn Gymraeg neu'n Saesneg ddefnyddio gwasanaethau. Nodwyd hefyd fod cyngor am fewnfudo bellach yn anodd ei gael wedi i drefniadau ariannu'r llywodraeth newid. Awgrymwyd y byddai pecyn gwybodaeth ar hawliau a chyfrifoldebau, ac ar sut i ddefnyddio gwasanaethau, yn ddefnyddiol i ymfudwyr ac i gymunedau BME.<br><br>Mynegwyd pryder hefyd ynghylch mynediad at wybodaeth a chefnogaeth i bobl LGBT. Cwynodd nifer o bobl na ellid cael mynediad at wybodaeth am faterion LGBT ar y rhyngrwyd nac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, gan fod systemau TG yn camgymryd y cynnwys fel cynnwys amhriodol ac yn ei rwystro. |
| |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus ...**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i nodi ac ymdrin â rhwystrau i gyfathrebu.<br>**Ac**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch.<br>**Ac**<br>Os gellir dangos tueddiadau cadarnhaol mewn dangosyddion a ddatblygir i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. |

## Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

| **Maes Gweithredu 6.2:**<br>Gwella mynediad ffisegol at wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored |
|---|
| |

**Ein Hymchwil:**

Canfu pôl piniwn a gomisiynwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC), fod 76 y cant o bobl anabl yng Nghymru'n dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd cyrchu nwyddau a gwasanaethau.[xviii] Yn ychwanegol at y rhwystrau i gyfathrebu a hyfforddi a grybwyllir uchod, mae diffyg cyfleusterau cludiant priodol a rhwystrau ffisegol hefyd yn cyfrannu tuag at ddiffyg mynediad. Daw enghraifft dda o hyn o arolwg Cyngor Cymru i'r Deillion o brofiadau pobl â nam ar y golwg o ofal iechyd.[xix] Canfu fod ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd defnyddio gwasanaethau meddyg teulu a gwasanaethau ysbyty. Cyfeiriwyd at hygyrchedd ffisegol ac agweddau'r staff fel materion allweddol.

Mae pobl anabl yn llai tebygol o gael mynediad at gar preifat ac yn fwy tebygol o ddibynnu ar dacsis ac ar gludiant cyhoeddus. Yn anffodus, nid yw cludiant cyhoeddus bob amser yn addas, a bydd newidiadau i fudd-daliadau'r DU sy'n effeithio ar Elfen Symudedd y Lwfans Byw i Bobl Anabl, o 2013, yn effeithio ar y lwfansau ar gyfer tacsis a mathau eraill o gludiant preifat.

Er bod gofyn i bob bws fod yn hygyrch erbyn 2017, ac i bob trên fod yn hygyrch erbyn 2020, ceir problemau sylweddol yn y cyfamser. Mewn ymchwil ddiweddar ar anabledd yng Nghymru gan Leonard Cheshire, canfuwyd bod 23% o bobl anabl wedi gorfod gwrthod swydd oherwydd diffyg cludiant hygyrch. [xx] Mewn ymchwil gan Sefydliad Bevan i'r EHRC canfuwyd bod:

> 'Un ar ddeg y cant o ymatebwyr yn yr arolwg Byw yng Nghymru nad oeddynt yn defnyddio cludiant cyhoeddus am resymau'n ymwneud â iechyd, 2008k). I'r un perwyl, canfu'r adroddiad gan Gyngor Defnyddwyr Cymru/y Comisiwn Cyfle Cyfartal (2005) fod 10 y cant o ddynion 45 neu'n hŷn ac 14 y cant o ferched 45 neu'n hŷn yn dweud bod ganddynt broblem gorfforol neu anabledd a oedd golygu ei bod hi'n anodd iddynt ddefnyddio'r bws.'[xxi]

Amlygai astudiaeth Leonard Cheshire hefyd rwystrau mynediad ffisegol, e.e. grisiau at adeiladau, diffyg mannau parcio i bobl anabl, fel rhwystrau i ystod o wasanaethau, gan gynnwys hawlio budd-daliadau.

Mae addasiadau ffisegol i adeiladau a mannau agored hefyd yn nodwedd allweddol er mwyn sicrhau mynediad teg a chyfartal Mae Anabledd Cymru wedi dadlau:

## Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

> 'Os yw'r amgylchedd adeiledig yn anhygyrch, mae hyn yn arwain at greu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cyflawni gweithgareddau bob dydd. Bydd rhwystrau i fynediad yn atal pobl anabl rhag datblygu'n aelodau sy'n cael eu cynnwys yn llwyr mewn cymdeithas. Rhaid rhoi ystyriaeth fanwl i fynediad allanol *yn ogystal â* mewnol wrth greu amgylchedd adeiledig sy'n rhydd rhag unrhyw rwystrau i fynediad. Rhaid rhoi yr un sylw i gynullfannau mewnol fel cynteddau â'r elfennau mwy amlwg, fel drysau i gael mynediad i'r adeilad. Rhaid sicrhau bod cynllunwyr/dylunwyr yn ymwybodol o hyn cyn cyflawni prosiectau adeiladu newydd'

Ers 2009, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi'i gwneud hi'n ofynnol i gyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad i gyd-fynd â'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio. Pwrpas y rhain yw:
'Dangos y camau a gymerwyd i werthuso cyd-destun ffisegol, cymdeithasol ac economaidd y datblygiad, a'i gyd-destun o ran polisi, ac egluro sut yr ystyrir y cyd-destun hwnnw yn nyluniad y datblygiad, mewn perthynas â'r defnydd arfaethedig a phob un o'r agweddau penodedig (gan gynnwys Mynediad).'[xxii]

Fodd bynnag, mae prosiect parhaus 'Y Ffordd Ymlaen' wedi amlygu diffyg lleoliadau hygyrch ledled Gogledd Cymru, lefel isel o ymwybyddiaeth a hyfforddiant i Gynllunwyr ar faterion mynediad, angen am fwy o ymgynghori â phobl anabl ar y broses gynllunio, ac am fwy o gysondeb mewn perthynas â dylunio cynhwysol.

**Datblygu Data**
Bydd y Partneriaid yn ymchwilio i ddichonadwyedd datblygu cyfres o ddangosyddion i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn.

**Gwybodaeth o Waith Ymgysylltu:**
Mae llawer o'r partneriaid yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru'n adrodd bod mynediad yn broblem sylweddol a amlygir droeon wrth ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau.

Canolbwyntiai trafodaethau ar yr angen i gynnwys pobl anabl wrth ddatblygu'r amcan hwn ymhellach. Roedd cryn arbenigedd i'w gael mewn grwpiau mynediad lleol y gallai awdurdodau cyhoeddus ei ddefnyddio o roi digon o gefnogaeth iddynt. Pwysleisiwyd pwysigrwydd dyluniad adeiladau, cludiant a chyfleusterau cyhoeddus, fel newid toiledau a chyfleusterau toiled er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer y gymuned drawsryweddol. Ceir ystod o broblemau mynediad yn gysylltiedig ag adeiladau cyhoeddus presennol.

## Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a’r amgylchedd

| |
|---|
| Mae nifer o grwpiau ac unigolion wedi cyflwyno tystiolaeth sylweddol bellach yn gysylltiedig â materion mynediad, a gobeithir y bydd y bobl hyn yn gallu cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Maes Gweithredu hwn. |
| |
| **Bernir y Maes Gweithredu hwn yn llwyddiannus...**<br>Os bydd % y bysus sy'n hygyrch yn cynyddu<br>**Ac**<br>Os ceir tystiolaeth bod partneriaid wedi cymryd camau i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored<br>**Ac**<br>Os gellir dangos tueddiadau cadarnhaol mewn dangosyddion a ddatblygir i gefnogi'r Maes Gweithredu hwn. |

## Rhestr termau sydd wedi'u talfyrru

| | |
|---|---|
| BSL | Iaith Arwyddion Prydeinig |
| BCUHB | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| LGBT | Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol |
| BME | Du a Lleiafrifoedd Ethnig |
| DHSS | Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

# Papurau ac adroddiadau ymchwil

[i] Arolwg Iechyd Cymru 2009, Tablau 4.9 a 4.1
[ii] *Siobhan McClelland Health and Social Care in* Victoria Winckler Ed, Equality Issues in Wales: A Research Review (EHRC:11/ Sefydliad Bevan 2009) pp. 104 - 5
[iii] *Ibid* p. 96
[iv] Dyfynnwyd yn *Siobhan McClelland Health and Social Care in* Victoria Winckler Ed, Equality Issues In Wales : A Research Review (EHRC:11/ Sefydliad Bevan 2009) p. 111
[v] Ibid p. 96. 112
[vi]EHRC, Pa mor deg yw Cymru? (2011) p. 6 a 40 - 8

[vii]Arolwg Cymru Gyfan o Fwlio Mewn Ysgolion (LICC 2009)

[viii] EHRC (2010) How Fair is Britain?, p. 322

[ix]Data o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol sy'n ganfyddadwy ar NOMIS
[x]Gweler EHRC, Triennial Review, **How fair is Britain?** (2010) pp. 380 - 453
EHRC, Pa mor deg yw Cymru? (2011) p. 8 a 49 - 56
[xi] Data o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion sy'n ganfyddadwy ar NOMIS.
[xii] EHRC, Pa mor deg yw Cymru? (2011) p. 9 a 30 - 34
[xiii]EHRC, Pwy sy'n rhedeg Cymru? (2011)
[xiv] EHRC, Triennial Review, **How fair is Britain?** (2010)
[xv] Gweler ystadegau Cymru 2008-yn seiliedig ar amcanion yr Awdurdod Lleol (2010)
[xvi] A Simple Cure: A National report into deaf and hard of hearing people's experiences of the NHS,
[xvii] Gweler Guide Dogs for the Blind, NALSVI, RNIB and Wales Council for the Blind (2007) *Calls to action from blind and partially sighted people in Wales*. Cardiff: Guide Dogs for the Blind.

Ac ar gyfer iechyd: A review of support in Eye Clinics, Barrick for RNIB( 2000), The Eye Clinic journey, McBride for RNIB (2002), a Towards and Inclusive Health Service: A research Report into the availability of Health Information for blind and partially sighted people, E. Sibley (2009)
[xviii] Victoria Winckler (golygydd) Materion cydraddoldeb yng Nghymru: adolygiad ymchwil
The Bevan Foundation for EHRC 11 (2009). Yr astudiaeth a ddyfynnir yw Chowdhury, R. and Worley, A. *An NOP Survey on*

---

*disabled people's experiences of access to services in Britain*. (2003)
[xix] Profiad pobl â nam ar y golwg o ofal iechyd, Cyngor y Deillion Cymru, (n.d.,a)
[xx] Tlodi Anabledd yng Nghymru, Leonard Cheshire Disability, (March 2011)
[xxi] Victoria Winckler (golygydd) Cydraddoldeb yng Nghymru: adolygiad ymchwil
Sefydliad Bevan ar gyfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 11 (2009). Dyma'r astudiaethau a ddyfynnir: Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008k) 'Defnydd o Drafnidiaeth Gyhoeddus yng Nghymru, 2005-2006', *Bwletin Ystadegol* 29/2008 a Chyngor Defnyddwyr Cymru/Y Comisiwn Cyfle Cyfartal (2005) *Gender and Bus Travel in Wales*. Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru/Y Comisiwn Cyfle Cyfartal.
[xxii] Datganiadau Dylunio a Mynediad, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)

| Amcan Un: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Iechyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Maes Gweithredu: Nifer y bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffyrdd iach o fyw yn cynyddu | | | | |
| Parhau i ddarparu gweithgareddau i grwpiau a dargedir ac, mewn rhai meysydd, cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan | Rhaglen waith gyfredol | Gwasanaethau Hamdden | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw | Tudalen 13. |
| Rhoi ar waith y gweithrediadau perthnasol o fewn y cynllun gweithredu ar gyfer 'Creu Gwynedd a Môn Egnïol' | 2011-2014 | Gwasanaethau Hamdden | I'w hadnabod fel rhan o'r cynllun gweithredu | Tudalen 13. |
| Maes Gweithredu: Gofal ar gyfer pobl hŷn yn cael ei wella i sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch | | | | |
| Parhau i weithio tuag at weithredu Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Pobl Hŷn y Cyngor | 2011-2014 | Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion | Oed | Tudalen 15. |
| Maes Gweithredu: Anghenion pobl gydag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl yn cael eu deall yn well | | | | |
| Parhau i weithio tuag at weithredu Strategaeth Gomisiynu Anableddau Dysgu 2012-15 y Cyngor | 2012-2015 | Gwasanaethau Cymdeithasol | Anabledd | Tudalen 16 |

DRAFT

| Amcan Dau: Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Maes Gweithredu: Bwlch cyflawniad addysgol rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng | | | | |
| Cynnal perfformiad disgyblion sydd ag anableddau corfforol a synhwyrol ar ddiwedd pob un o'r Cyfnodau Allweddol fel nad oes unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol | I'w gynnwys | Addysg | Anabledd | Tudalen 17 |
| Sicrhau na fydd unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol yn 16+ oed ar gyfer disgyblion lle mae Saesneg yn iaith arall (EAL) iddynt ac sydd wedi bod yn ysgolion yr awdurdod am fwy na thair blynedd | I'w gynnwys | Addysg | Hil | Tudalen 17. |
| Haneru'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, lle mae'n fwy na 10% | I'w gynnwys | Addysg | Rhyw | Tudalen 17 |

DRAFT

| Amcan Dau: Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Maes Gweithredu: Bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth yn gostwng mewn ysgolion | | | | |
| Darparu hyfforddiant i ysgolion mewn ymateb i ganllawiau gwrth-fwlio newydd Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill' (Hydref 2011). | I'w gynnwys | Addysg | Anabledd<br>Rhyw<br>Hil<br>Crefydd a Chred<br>Cyfeiriadedd Rhywiol<br>Newid Rhyw | Tudalen 18. |
| Maes Gweithredu **Lleol:** Darparu hyfforddiant i ysgolion ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth | | | | |
| Darparu hyfforddiant i ysgolion i godi eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | I'w gynnwys | Addysg | Pob Grwp | Tudalen 19. |

DRAFT

| Amcan Tri: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Gwaith** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Maes Gweithredu: Anghydraddoldebau o ran prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu yn cael eu canfod a'u datrys | | | | |
| Codi ymwybyddiaeth ymsyg staff am yr hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg | Parhaus. | Adnoddau Dynol | Beichiogrwydd a Mamolaeth<br>Oed<br>Anabledd<br>Rhyw | Tudalen 20. |
| Edrych ar ddatblygu strategaethau pellach er mwyn cynorthwyo staff i weithio'n hyblyg | Rhaglen waith gyfredol. | Adnoddau Dynol | Beichiogrwydd a Mamolaeth<br>Oed<br>Anabledd<br>Rhyw | Tudalen 20 |
| Maes Gweithredu: Unrhyw fylchau mewn cyflogau rhwng gwahanol nodweddion a ddiogelir yn cael eu nodi ac ymdrin â nhw | | | | |
| Datblygu system a fydd yn galluogi'r Awdurdod i ganfod unrhyw fylchau cyflog ar sail rhyw. | Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn dilyn arfarnu swyddi a statws sengl. | Adnoddau Dynol | Rhyw | Tudalen 21. |
| Cynnwys pob un o'r nodweddion a warchodir yn dilyn cwblhau arfarnu swyddi a statws sengl. | Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn dilyn arfarnu swyddi a statws sengl. | Adnoddau Dynol | Rhyw | Tudalen 21. |

DRAFT

| Amcan Tri: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Gwaith** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Dadansoddi data am y gweithlu flwyddyn ar flwyddyn a chynhyrchu adroddiad blynyddol o'r wybodaeth a ddadansoddir. | 31 Mawrth 2013 ac erbyn 31 Mawrth yn flynyddol wedi hynny | Adnoddau Dynol | Pob Grwp | Tudalen 21. |

| Amcan Pedwar: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Diogelwch Personol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Maes Gweithredu: Nifer y digwyddiadau o adrodd trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng trosedd ac aflonyddwch mewn perthynas â chasineb | | | | |
| Datblygu trefniadau hygyrch fel bod tenantiaid yn gallu adrodd unrhyw wahaniaethu neu sylwadau ac ymddygiad amhriodol mewn digwyddiadau cyfranogi. | 31 Mawrth 2013 | Tai | Pob grwp | Tudalen 22. |
| Maes Gweithredu: Nifer y digwyddiadau o adrodd camdriniaeth ddomestig yn cynyddu a chamau'n cael eu cymryd i ostwng candriniaeth ddomestig | | | | |
| Gweithredu i'w gytuno mewn ymgynghoriad â Fforwm Cam-drin Domestig Ynys Môn | | Tai (Diogelwch Cymunedol) | Rhyw | Tudalen 23. |

DRAFT

| Amcan Pump: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychioli a Llais y Bobl** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Maes Gweithredu: Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychioladol o'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu | | | | |
| Parhau i weithredu, adolygu a datblygu ein Strategaeth Adnewyddu Democrataidd ymhellach | Cam Un – etholiad nesaf I'r Cyngor Sir | Polisi | Pob grwp | Tudalen 24. |
| Maes Gweithredu: Ymgynghoriad ac Ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp a warchodir | | | | |
| Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i asesu ymarferoldeb strwythurau rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori | 31 Mawrth 2013 | Polisi | Pob grwp | Tudalen 26. |
| Gweithio gyda partneriaid er mwyn adnabod ac ymgysylltu gyda grwpiau sy'n anodd i'w cyrraedd yn y boblogaeth leol a gweithio tuag at lenwi'r bylchau a nodwyd mewn data lleol | 31 Mawrth 2013 | Polisi | Hil;<br>Sipsiwn a Theithwyr;<br>Crefydd a Chred;<br>Newid Rhyw;<br>Cyfeiriadedd Rhywiol | Tudalen 26. |

DRAFT

| Amcan Pump: Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychioli a Llais y Bobl** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Gweithio gyda'n partneriaid lleol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau o fewn fforymau cyfredol er mwyn mynd â materion cydraddoldeb yn eu blaen. | 31 Mawrth 2013 | Polisi | . Pob grwp | Tudalen 26. |

| Amcan Chwech: Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **Mynediad** i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Maes Gweithredu: Mynediad at wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer yn gwella | | | | |
| Codi ymwybyddiaeth am Lawlyfr Delwedd Corfforaethol y Cyngor a chynhyrchu canllawiau arfer dda i staff o ran cynhyrchu dogfennau mewn fformatiau eraill | 31 Mawrth 2013 | Polisi | Anabledd | Tudalen 27 |
| Cynhyrchu canllawiau arfer dda i staff o ran darparu argaeledd gwasanaethau cyfieithu i siaradwyr ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg | 31 Mawrth 2013. | Polisi | Hil | Tudalen 27. |

DRAFT

| Amcan Chwech: Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **Mynediad** i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Gweithredu'r system democrataidd ModernGov | Yr holl swyddogion perthnasol i dderbyn hyfforddiant ar y system newydd erbyn 31 Mawrth 2013. | TGCh | Anabledd | Tudalen 27. |
| Datblygu proffil amrywiaeth o denantiaid y Cyngor er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion unigol | 31 Mawrth 2013 | Tai | Pob grwp | Tudalen 27. |
| Maes Gweithredu: Mynediad corfforol i wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella | | | | |
| Parhau i wella arosfannau bysus ar yr Ynys i'w gwneud yn hygyrch. | Parhaus - Bydd cynnydd gyda datblygu ein arosfannau bysus yn dibynnu ar gyllid. | Priffyrdd | Anabledd | Tudalen 29. |

DRAFT

| Amcan Saith: **Gwella Gweithdrefnau'r Cyngor** i sicrhau tegwch i bawb | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Maes Gweithredu: Mae rhaglen hyfforddiant staff yn ei lle i sicrhau bod gan y staff iawn y sgiliau iawn i ddarparu gwelliannau cydraddoldeb | | | | |
| Codi ymwybyddiaeth ymysg staff y Cyngor am y modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb | Parhaus. | Adnoddau Dynol | Pob grwp. | Tudalen 30 |
| Parhau i hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r holl staff a lle mae gwasanaethau wedi adnabod anghenion penodol, megis cynnig hyfforddiant penodol i staff rheng flaen. | Parhaus. | Adnoddau Dynol | Pob grwp. | Tudalen 30 |
| Maes Gweithredu: Proses gorfforaethol effeithiol wedi'i sefydlu i sicrhau bod asesu effaith yn parhau ar draws gwasanaethau | | | | |
| Parhau i ddatblygu a gwella ein proses gorfforaethol tra'n sicrhau y defnyddir dull cyson ac effeithiol ar draws yr awdurdod o asesu effaith. | Parhaus | Polisi | Pob grwp | Tudalennau 10 a 31. |

DRAFT

| Amcan Saith: **Gwella Gweithdrefnau'r Cyngor** i sicrhau tegwch i bawb | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth rydym am ei wneud** | **Erbyn pryd** | **Cyfrifoldeb** | **Grwp perthnasol** | **Manylion pellach:** |
| Maes Gweithredu: Gweithdrefnau ac arferion yn eu lle fel bod gwasanaethau wedi eu caffael yn cwrdd ag ymrwymiadau a disgwyliadau'r awdurdod ynghylch cydraddoldeb | | | | |
| Asesu ein polisiau a strategaeth caffael i ystyried a ydynt yn bodloni amcanion y ddyletswydd yn briodol a gwneud unrhyw newidiadau os oes angen | 31 Mawrth 2013. | Cyllid | Pob grwp | Tudalen 32 |

DRAFT